



CYNGOR SIR PENFRO

Adroddiad Ariannol Blynyddol

Gan Gynnwys Datganiad O Gyfrifon

2022-23

Addasu Archwiliad
9 Mai 2024

TABL CYNNWYS

1.0	Rhagair Esboniadol – Performiad Ariannol Cryno	1
2.0	Tystsgrif Yr Archwilwyr	20
3.0	Datganiad Cyfrifoldebau Dros Y Datganiad Cyfrifon	22
4.0	Datganiadau Ariannol Creiddiol - Egwyddorion Sylfaenol	25
5.0	Cysyniadau Cyfrifyddu	28
6.0	Barnau Beirniadol Wrth Gymhwyso Polisiau Cyfrifyddu Ac Amcangyfrif Peryglon	30
7.0	Datganiadau Ariannol Craidd – Cydrannau A Manylion	35
8.0	Polisiau Cyfrifyddu	46
9.0	Nodiadau Ar Y Dadansoddiad Gwariant A Chyllid	66
10.0	Nodiadau Ar Y Datganiad Incwm A Gwariant Cynhwysfawr	71
11.0	Nodiadau Ar Y Datganiad Symudiad Cronfeydd	87
12.0	Nodiadau Ar Y Datganiad Y Fantolen	92
13.0	Y Cyfrif Cyllid Tai (CRT)	115
14.0	Cyfrifon Eraill Dan Reolaeth Y Cyngor	122
15.0	Digwyddiadau Ar Ôl Y Cyfnod Adroddiad	122

1.0 ADRODDIAD NARATIF

Cyngor Sir Penfro – Datganiad Cyfrifon Blynnyddol 2022-23



1.0 ADRODDIAD NARATIF

1.1 CYFLWYNIAD

Mae Adroddiad Cyfrifon Cyngor Sir Penfro ar gyfer 2022-23 yn darparu cofnod o berfformiad ariannol y Cyngor a'r sefyllfa am y flwyddyn. Cyflwynwyd yr adran hon yw cyfleu pwrpas y Cyngor, sut mae wedi perfformio yn unol â'i strategaeth gyffredinol ac yn erbyn dangosyddion perfformiad dros y flwyddyn, a sut mae wedi dyrannu ei adnoddau yn unol â chanlyniadau a fwriadwyd. Mae'n dangos perfformiad ar y cyd dros y flwyddyn a pha mor dda yw adnoddau'r Cyngor i fynd i'r afael â'r heriau o'i flaen ac i barhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogi ei gymuned leol. Mae'n adrodd stori'r Cyngor drwy ddarparu golwg hollataidd, glir wedi'i hadeiladu'n dda ar ei strategaethau, ei lywodraethiant, ei berfformiad a'i ragolwg am y dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi wynebu lefel gyson o her gyda wyth blynedd o ostyngiadau¹ sylweddol mewn setliadau ariannol a chwyddiant sylweddol yn y gweithlu, chwyddiant y tu allan i'r gweithlu, pwysau demograffig a deddfwriaethol, yn arwain at fwlch cyllid cronol o £123.9 miliwn² (2014-15 i 2022-23). Cafodd y bwlch ariannu ei bontio drwy gyfuniad o £28.7 miliwn o incwm ychwanegol o godiadau yn y Dreth Gyngor (gan gynnwys newidiadau sylfaenol), £88.7 miliwn drwy ostyngiadau cost/arbedion effeithlonrwydd³, cyfraniad o £0.6 miliwn o incwm ail gartrefi'r Dreth Gyngor (elfen gymunedol) a chyfraniad untro o £5.9 miliwn o gronfeydd wrth gefn.

Ers dechrau blwyddyn ariannol 2022-23 mae'r DU wedi profi cynnydd eithriadol mewn chwyddiant / costau byw ynghyd â marchnad recriwtio sydd wedi bod yn gryn her. Mae hyn oll wedi arwain at lefel uchel o ansicrwydd gan wneud amcanestyniadau cyllidebol yn fwyfwy anodd i'w rhagweld. Arweiniodd rhagamcanion ynghylch gorwariant cyllidebol at foratorïwm ar wariant nad yw'n hanfodol a rhewi prosesau recriwtio am y rhan fwyaf o'r flwyddyn ariannol.

Nid yw'r costau ychwanegol a'r incwm coll net o ffioedd a thaliadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â Covid-19 yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru mwyach, gydag unrhyw bwysau ariannol parhaus ar gyllidebau Cyngor Sir Penfro sy'n deillio o'r adferiad o Covid-19 yn cael ei ariannu i ddechrau trwy ddefnyddio'r Gronfa Caledi.

Dangosir yn Adroddiad Monitro Alldro Cyllideb y Cyngor Sir a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 3 Gorffennaf 2023.

Paratowyd y cyfrifon hyn gan gadw effaith barhaol pandemig COVID-19 mewn cof, yn enwedig dan adran 6.0 Sylwadau Beirniadol wrth Gymhwyso Polisiâu Cyfrifyddu a Risg Amcangyfrif; adran 12.13.3.1 Natur a Maint y Risgiau sy'n Deillio o Offerynnau Ariannol.

1.2 TROSOLWG SEFYDLIADOL

1.2.1 FFEITHIAU ALLWEDDOL AM SIR BENFRO

Mae Sir Benfro yn un o ardaloedd arbennig Prydain, yn cyfuno rhai o'r golygfeydd arfordirol mwyaf arbennig a threftadaeth ddiwylliannol unigryw. Mae bron tri chwarter y sir o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro - yr unig barc cenedlaethol arfordirol ym Mhrydain, ac mae traethau niferus y sir ymhlith y rhai mwyaf godidog. Mae hyn i gyd yn gwneud y sir yn ardal arbennig o ddeniadol a boddhaol i fyw a gweithio.

¹ Yn 2022-23 gwelwyd cynnydd o 9.4% yn yr AEF, yn 2021-22 gwelwyd cynnydd o 4.0% yn yr AEF, ac yn 2020-21 gwelwyd cynnydd o 4.9% yn yr AEF (o'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau i'r setliad).

² Yn cynnwys twf ychwanegol uwchlaw pwysau a nodwyd o £0.7m ar gyfer 2022-23 ac £0.6m ar gyfer 2021-22 ac £1.6m ar gyfer 2020-21

³ Yn cynnwys incwm ychwanegol, e.e. cynnydd i ffioedd a thaliadau gwasanaeth.



Mae Cyngor Sir Penfro yn darparu ystod eang o wasanaethau ar gyfer trigolion, busnesau ac ymwelwyr. Rydym:

- Yn gwasanaethu poblogaeth o dros 123,400 a mwy o bobl o lawer ym misoedd yr haf
- Yn casglu sbwriel ac ailgylchu o dros 65,000 o gartrefi
- Yn cynnal oddeutu 2,500 cilometr o ffyrdd, 651 o bontydd a 610 cilometr o troedffyrdd a 15,756 o oleuadau stryd
- Yn darparu dros 93 o feysydd parcio gyda mwy na 8,000 o leoedd
- Yn gyfrifol am 60 o ysgolion, gan ddarparu addysg ar gyfer 17,142 o ddisgyblion (Ionawr 2023)
- Rhoi cymorth i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; amddiffyn plant, diogelu a gwasanaethau ieuenctid
- Meddu ar fwy na 5,700 o gartrefi a'u rheoli
- Rhoi gwybodaeth a chynghor i oedolion i'w cynorthwyo i fyw yn annibynnol yn y gymuned, yn ogystal â rhoi cymorth uniongyrchol i dros 3,700 o oedolion agored i niwed
- Datblygu Cynllun Datblygu Lleol, y mae'n ofynnol i ni ei adolygu bob pedair blynedd, a phrosesu tua 1,100 o geisiadau cynllunio'r flwyddyn
- Darparu ystod eang o wasanaethau diogelu'r cyhoedd, gan gynnwys iechyd yr amgylchedd, safonau masnach a thrwyddedu
- Cynorthwyo i gynnal traethau arobryn Sir Benfro, sy'n ymfalchïo mewn 10 baner las a 7 o Wobrau Arfordir Gwyrdd
- Rheoli cyfleusterau hamdden y sir, ei llyfrgelloedd, ei hamgueddfeydd a'i harchifau
- Cyflogi 6,317 (6,340) o bobl Mawrth 2023 (Mawrth 2022), gan gynnwys y rhai sy'n gweithio mewn Ysgolion (yn cynnwys staff achlysurol).

1.2.2 GWELEDIGAETH Y CYNGOR

Gweledigaeth y Cyngor yw "Gweithio Gyda'n Gilydd, Gwella Bywydau".


1.2.3 CYNLLUNIO CORFFORAETHOL

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi Amcanion Llesiant sy'n nodi sut rydym yn bwriadu rheoli gwasanaethau mewn ffordd fwy cynaliadwy a sut y byddwn yn cynyddu ein cyfraniad at gyflawni Nodau Llesiant cenedlaethol Cymru. Mae Amcanion Llesiant yn ofyniad ar gyrrff cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Amcanion Llesiant y Cyngor yn cyd-fynd ac yn adlewyrchu Rhaglen y Cabinet ar gyfer Gweinyddu a Chynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro. Bydd Rhaglen newydd ar gyfer Gweinyddu ar waith erbyn Ionawr 2023 a bydd Cynllun Llesiant newydd 2023-28 yn cael ei gynhyrchu yn Mai 2023.



Yr Amcanion Lles ar gyfer 2022-23 oedd:




Bydd cynnydd yn erbyn cyflawni ein Hamcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 yn cael ei adrodd yn ein hadroddiad hunanasesu blynyddol (gweler isod).

1.2.4 PROFFIL GWLEIDYDDOL

Yn ystod 2022-23, roedd y Cyngor yn cynnwys 60 o Aelodau etholedig, pob un yn cynrychioli trigolion mewn gwahanol ardaloedd yn Sir Benfro. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu model llywodraethu Arweinydd a Chabinet. Roedd y Cabinet yn gymysgedd o Lafur, Plaid Cymru, y Democratiaid Rhyddfrydol a Chynghorwyr digyswllt dan arweiniad Arweinydd digyswllt.

Cynghorwyr Sir Benfro - Cynrychiolaeth Pleidiau Gwleidyddol



1.2.5 Y CYFANSODDIAD

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi sut y mae'r Cyngor yn gweithredu, y gwahanol gyrff sy'n ffurfio'r Cyngor, sut y gwneir penderfyniadau a'r gweithdrefnau a ddilynir.

Mae rhai o'r prosesau hyn yn ofynnol o dan y gyfraith, tra mae eraill yn faterion i'r Cyngor eu penderfynu.

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cyfansoddiad diwygiedig a ddaeth i rym ar 18 Tachwedd 2016 ac sydd wedi ei ddiweddarau yn Ionawr 2018, Mehefin 2019, Ionawr 2020, Gorffennaf 2020, Chwefror 2021 a Mawrth 2021 yn dilyn newidiadau Cyfansoddiadol a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

Yn dilyn argymhelliad gan Archwilio Cymru a wnaed ym mis Ionawr 2022, mae'r Cyngor wedi dechrau ar adolygiad/ailysgrifennu graddfa lawn o'r Cyfansoddiad a phrotocolau cysylltiedig, yn seiliedig ar Gyfansoddiad Model Cymru. Roedd hyn wedi'i gymeradwyo gan y cyngor ar [12 Hydref 2023](#).

1.2.6 LLYWODRAETHU A RISGIAU

Rydym yn paratoui Datganiad Llywodraethu Blynddol (DLIB) sy'n cyd-fynd â'r Datganiad o'r Cyfrifon bob blwyddyn. Mae hwn yn amlinellu fframwaith llywodraethu'r Cyngor, ac yn dilyn adolygiad o effeithiolrwydd, mae'n nodi materion llywodraethu arwyddocaol a blaenoriaethau ar gyfer gwella, gyda chymau penodol i'w cymryd y flwyddyn ganlynol. Fe'i cynhyrchir yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor, o leiaf unwaith y flwyddyn, adolygu effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y system o reolaeth fewnol.

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynddol drafft ar gyfer 2022-23 yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 6 Gorffennaf 2023 a bydd yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor ar [12 Hydref 2023](#).

1.2.6.1 RHEOLI RISG BUSNES

Mae Aelodau a Swyddogion yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ystyried risg (bygythiadau a chyfleoedd) yn y penderfyniadau a wnânt a bod trefniadau addas ar waith i reoli risg. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am oruchwylio trefniadau Rheoli Risg Busnes y Cyngor.

Cymeradwywyd [Strategaeth Rheoli Risg Busnes 2022-25](#) y Cyngor gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 12 Gorffennaf 2022. Nod y Strategaeth Rheoli Risg Busnes yw gwella integreiddio Rheoli Risg Busnes i ddiwylliant ac arferion gwaith y Cyngor, a'i Bartneriaethau, a gwella effeithiolrwydd trefniadau Rheoli Risg Busnes presennol. Mae Strategaeth Rheoli Risg Busnes y Cyngor yn cael ei hadolygu a'i diweddarau'n flynyddol i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn gydnaws ag amcanion Llesiant y Cyngor a'i bod yn adlewyrchiad cywir o'r archwaeth risg. Mae'r Strategaeth Rheoli Risg Busnes yn amlinellu'r rolau, y cyfrifoldebau a'r fframwaith cymeradwy ar gyfer rheoli risg busnes.

Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn nodi'r risgiau (bygythiadau a chyfleoedd) i gyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hon yn ddogfen fyw a adolygwyd yn ffurfiol ddiwethaf gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 6 Gorffennaf 2023.

1.2.7 RHAGLEN TRAWSNEWID A GWELLA

Roedd Rhaglen Drawsnewid y Cyngor ar waith rhwng 2018 a 2022 ac mae bellach yn y broses o gael ei datblygu i Raglen Trawsnewid a Gwella'r Cyngor. Roedd gan y Rhaglen Drawsnewid ffyrddau gwaith unigol o dan 3 thema: Trawsnewid Technolegol, Trawsnewid Diwylliannol, a Thrawsnewid Perthynas. Rhoddodd y Rhaglen Drawsnewid yr offer angenrheidiol i Gyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth i'w cynorthwyo i gyflawni eu targedau lleihau costau/effeithlonrwydd (cynnal eu cyllideb sefydlog) dros y CATC. Cymeradwywyd aliniad y Rhaglen Drawsnewid â'r Rhaglen Wella newydd gan y Cyngor ar 13 Mai 2021. Mae darn o waith ar y gweill hefyd i alinio'r Rhaglen Trawsnewid a



Gwella â'r Rhaglen Weinyddu, y Cynllun Corfforaethol a'r sefyllfa ariannol bresennol. Bydd hyn yn canolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol a rhaglenni newid ar gyfer y sefydliad.

1.2.8 PARTNERIAETHAU STRATEGOL

Mae'r Cyngor yn cefnogi nifer o bartneriaethau strategol yn ariannol a chydag amser Swyddogion ac Aelodau. Mae'r ysgogwyr ar gyfer y partneriaethau hyn yn cynnwys deddfwriaeth, er enghraifft, 'Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Benfro Ddiogelach', a pholisi'r llywodraeth, er enghraifft, 'Partneriaeth', a'r Fargen Ddinesig Bae Abertawe.

Ffurfiwyd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru (SWWCJC) yn ffurfiol ar 15 Mawrth 2022, ar ôl i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ddod i rym. Mae'n Gyd-bwyllgor (Awdurdodau Cyfunol) sy'n cwmparu pedwar awdurdod unedol Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Yn unol â deddfwriaeth, bydd SWWCJC yn gyfrifol am ystod o 'swyddogaethau mandadol' – trafnidiaeth ranbarthol, gan gynnwys datblygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol; cynllunio rhanbarthol (defnydd tir), gan gynnwys datblygu Cynllun Datblygu Strategol; llesiant economaidd, a throsolwg o'r Strategaeth Economaidd Ranbarthol a'r Cynllun Cyflawni (a fabwysiadwyd gan SWWCJC ym mis Mai 2022). Yn ogystal, mae SWWCJC wedi cytuno i gefnogi 'swyddogaeth' ychwanegol - datblygu a goruchwyllo'r Strategaeth Ynni Ranbarthol (a fabwysiadwyd gan SWWCJC ym mis Mai 2022).

Llwyddodd y Cyngor i ennill cynnig ar y cyd ar gyfer Porthladd Rhydd mewn cydweithrediad ag Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau, Associated British Ports a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a gyhoeddwyd ar 22 Mawrth 2023. Mae gan ddau borthladd Aberdaugleddau a Phort Talbot gyfleusterau cyflenwol i fanteisio ar y potensial sylweddol iawn ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt arnofiol ar y môr (FLOW) yn y Môr Celtaidd, ardal allweddol a nodwyd gan Lywodraeth y DU (Ystâd y Goron) ar gyfer hyd at 4 Gigawatt o FLOW. Hefyd, mae diddordeb cynyddol yn y sector hydrogen a'r cyfraniad y gall hyn ei wneud i ddatgarboneiddio gosodiadau ynni a diwydiant trwm ym Mhort Talbot ac Aberdaugleddau.

Mae manylion Partneriaethau Strategol y Cyngor wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

1.3 PERFFORMIAD 2022-23

1.3.1 HUNANASESIAD BLYNYDDOL

Yn dilyn cyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio adroddiad hunanasesu blynyddol yn nodi sut y mae wedi cyflawni ei ddyletswyddau perfformiad mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Mewn gwirionedd, mae'r adroddiad hwn yn disodli'r Adolygiad Gwella yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor ei gynhyrchu yn flaenorol. Bydd adroddiad hunanasesu cyntaf y Cyngor (yn adrodd ar flwyddyn ariannol 2021-2022) yn cael ei ystyried gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2022, gyda'r hunanasesiad blynyddol ar gyfer 2022-23 yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor ar [12 Hydref 2023](#).

Yn dilyn ymlaen o'r Her Cyfoedion Corfforaethol ym mis Chwefror 2020, cymerodd y Cyngor ran mewn Her Cyfoedion Cyfathrebu ym mis Rhagfyr 2020 a Her Cyfoedion Economi ym mis Mehefin/Gorffennaf 2021.

Crëwyd Bwrdd Herio Perfformiad Cyllideb yn 2020-21 ac mae'n parhau i gyfarfod yn rheolaidd. Parhaodd y gyfres barhaus o adolygiadau gwasanaeth allanol o holl wasanaethau'r Cyngor yn ystod 2021-22 a byddant yn cael eu cwblhau yn ystod 2022-23. Mae camau gweithredu penodol o'r adolygiadau wedi'u cynnwys yng Nghynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol 2022-24 a gafodd ei ystyried diwethaf gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Medi 2022, gyda Chynllun Gwella Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor ar [12 Hydref 2023](#).



1.3.2 ALLBWN REFENIW 2022-23

Cymeradwywyd Adroddiad Monitro Canlyniadau Cyllideb y Cyngor Sir 2022-23 gan y Cabinet ar 3 Gorffennaf 2023. Cadarnhaodd sefyllfa ariannol y refeniw fod gwariant net y Cyngor ar gyfer 2022-23 yn £263.167m, ar ôl neilltuo i ac o'r gronfa wrth gefn, sef tanwariant o £2.889m. Roedd yr alldro yn cynnwys £0.063m o'r Dreth Gyngor yn llai na'r hyn a ragwelwyd pan gymeradwywyd cyllideb wreiddiol 2022-23.

Rhoddodd hyn gyfle i briodoli £2.826m i'r Gronfa Fenter i ddarparu adnoddau i'r Cyngor fuddsoddi mewn prosiectau gwella ac i wireddu cyfleoedd i osgoi costau / gwneud arbedion cyllidebol yn y dyfodol.

Nid yw'r costau ychwanegol a'r incwm coll net o ffioedd a thaliadau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â Covid-19 yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru mwyach. Mae unrhyw bwysau ariannol parhaus ar gyllidebau Cyngor Sir Penfro sy'n deillio o'r adferiad o Covid-19 yn ystod y flwyddyn gyfredol neu blyneddoddd yn y dyfodol yn cael ei ariannu i ddechrau trwy ddefnyddio'r Gronfa Caledi.

Ers dechrau pandemig Covid-19, mae lefel ac oedran dyled heb ei thalu wedi bod yn cynyddu'n gyson; mae'r duedd hon wedi dechrau gwrthdroi yn 2022-23 gyda'r mwyafrif o wasanaethau'n profi gostyngiad yn lefel eu gofyniad am ddarpariaeth drwg-ddyledion ar gyfer dyledion heb eu casglu gan ddyledwyr masnach. Yr eithriad i hyn yw Gofal Cymdeithasol i Oedolion, sydd â chynnydd pellach o £0.419m yn y ddarpariaeth drwg-ddyledion yn 2022-23.

Mae incwm ar gyfer rhai hawliadau am gymorthdaliadau/grantiau wedi'u cronni yn y cyfrifon ar sail debygol/wirioneddol hyd nes ceir data hawliadau terfynol.

Roedd strategaeth gyllidebol yr Awdurdod o gyllidebau refeniw llinell sefydlog (arian parod) ar gyfer yr holl wasanaethau yn parhau yn ei lle ar gyfer 2022-23, gyda gwasanaethau'n cael eu gwahodd i wneud cais am bwysau a thwf chwyddiant. Bu'r Bwrdd Herio Perfformiad Cyllideb yn ystyried ac yn herio perfformiad ariannol, ceisiadau am dwf ar gyllidebau llinell sefydlog a chynigion lleihau costau/effeithlonrwydd ar gyfer cyllideb 2022-23, gan wneud argymhellion i'r Cabinet.

	Gyllideb wreiddiol 2022-23 £m	C3 Gyllideb Gyflwyno 2022-23 £m	C3 Alldro Rhagamcanol 2022-23 £m	Gwariant gwirioneddol 2022-23 £m
Gwariant Gros	412.1	423.3	421.5	422.2
Incwm	(146.3)	(153.3)	(152.8)	(162.6)
Cyfraniad i'r/(o'r) cronfeydd wrth gefn	0.2	(4.0)	(4.0)	3.5
Gwariant Net	266.0	266.0	264.7	263.1
Cyfraniad Ail Gartref / Eiddo Gwag Hirdymor I Gronfeydd wrth gefn	-	-	-	4.8
Neilltuad gwarged Priodoli i Gronfeydd wrth gefn y fenter	-	-	-	2.8
Cyfanswm y Gwariant Net	266.0	266.0	264.7	270.7

Yn ystod 2022-23, rhoddwyd sgôr RAG i bob un o'r cyllidebau refeniw gwasanaeth o ran eu sefyllfa alldro ar ddiwedd y flwyddyn:

Graddfa CAG:	Cyrhaeddiad:
Coch	Gorwariant sylweddol yn y Gyllideb o'i chymharu â'r gyllideb dreigl
Melyngoch	Y Gyllideb wedi cael ei chyflawni'n gyffredinol o gymharu â'r gyllideb dreigl
Gwyrdd	Tanwariant sylweddol yn y Gyllideb o'i chymharu â'r gyllideb dreigl

Dengys y tabl isod y sefyllfa alldro wirioneddol o'i chymharu â chyllideb dreigl lonawr ac alldro amcanol lonawr ar lefel y Gyfarwyddiaeth.

Gwasanaeth	2021-22	Gwariant Net 2022-23			Gwahaniaeth, Gwariant Gwirioneddol i Gyllideb Gyflwyno
	Gwariant gwirioneddol	lonawr Gyllideb Gyflwyno	Gwariant Amcanest-yniadol lonawr	Gwariant gwirioneddol	
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Addysg - Cyllidebau Ysgolion Unigol	79,348	82,767	82,767	83,521	754
Gwasanaethau Addysg - Eraill	20,088	21,911	21,487	21,717	(194)
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Plant	15,123	17,083	17,697	17,049	(34)
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Oedolion	58,004	65,200	65,318	65,902	702
Gwasanaethau Tai	1,120	1,191	943	1,391	200
Cyfrif Refeniw Tai	-	-	-	-	-
Gwasanaethau Prifffyrdd a Chludiant	8,951	9,966	10,501	10,096	130
Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig	5,444	6,417	6,553	6,206	(211)
Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu	1,571	2,530	2,737	2,270	(260)
Gwasanaethau Amgylcheddol	15,808	16,930	17,209	16,504	(426)
Gwasanaethau Canolog, Corfforaethol a Democrataidd Eraill**	14,391	11,090	10,469	14,009	2,919
Cynllun Lleihau Treth Cyngor	9,506	10,080	9,464	9,482	(598)
Gwasanaethau Llys	289	326	329	334	8
Arbed Ailstrwythuro Corfforaethol	-	(1,000)	-	-	1,000
Wrth Gefn	-	-	-	-	-
Eiddo gwag tymor hir*	-	375	375	376	1
Cynllun Tai Fforddiadwy*	1,319	3,815	3,815	3,272	(543)
Cyfraniadau l'r Gymuned*	1,319	1,271	1,271	1,091	(180)
Costau Clir Gwasanaethau	232,281	249,952	250,935	253,220	3,268
Ardollau	8,240	8,573	8,528	8,527	(46)
Incwm Buddsoddi Net	(456)	(344)	(1,795)	(1,786)	(1,442)
Costau Codi Cyfalaf	10,669	13,336	12,575	10,771	(2,565)
Cyfanswm Gwariant Net	250,734	271,517	270,243	270,732	(785)

Ariannwyd gan:	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Grant Cynnal Cyllid a Grant Arbennig	(139,576)	(150,387)	(150,387)	(150,387)	-
NNDR	(42,233)	(45,870)	(45,870)	(45,870)	-
Treth y Cyngor	(67,287)	(69,799)	(69,799)	(69,736)	63
Treth Cyngor Premiwm Ail Gartrefi a Eiddo Gwag Tymor Hir*	(2,638)	(5,461)	(5,461)	(4,739)	722
Cyfanswm	(251,734)	(271,517)	(271,517)	(270,732)	785

Net (Gwarged) / Diffyg***	(1,000)	-	(1,274)	-	-
----------------------------------	----------------	----------	----------------	----------	----------

* Dangosir y Dreth Gyngor Ail Gartrefi ar wahân yn y Cyfrifon Rheoli ond wedi'i gyfuno yn y Tablau Datganiad Cyfrifon

** Gofal Cymdeithasol – Oedolion yn cynnwys dyraniad gwarged o £0.4m i'r Gronfa Cydraddoli Gofal Cymdeithasol wrth gefn ac mae Gwasanaethau Canolog, Corfforaethol a Democrataidd yn cynnwys £4.8m o gyfraniad gwarged i gronfa wrth gefn y Gronfa Fenter.

*** Mae Gwarged Net wedi'i neilltuo i Falans Gwaith y Gronfa Gyffredinol

Dangosir yr holl faterion gwasanaeth-benodol a sylwebaeth yn [Adroddiad Monitro Alldro Cyllideb y Cyngor Sir 2022-23](#) a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 3 Gorffennaf 2023.

1.3.3 CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai yn gyfrif sydd wedi'i glustnodi; mae'n cynnwys incwm o renti a gwariant ar reoli'r stoc tai a gwasanaethau cysylltiedig.

- Mae gan y Cyngor 5,717 (5,696) o anheddau a 1,075 (1,075) o siopau a garejys ar 31 Mawrth 2023 (31 Mawrth 2022).
- Y rhent wythnosol agored heb ei ad-dalu ar gyfartaledd ar gyfer 2022-23 oedd £ 94.54 (2021-22 £87.43).
- Cyfanswm yr incwm yn cynnwys rhent a thaliadau am wasanaethau oedd £27.568 miliwn (2021-22 £26.257m)
- Roedd gwariant refeniw yn cynnwys £14.450 miliwn (2021-22 £14.834m) ar atgyweiriadau a chynnal a chadw, £0.479 miliwn (2021-22 £0.717m) ar Rent a thaliadau gwasanaeth a'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus, £4.090 miliwn (2021-22 £4.373m) ar addasiadau cyllido Cyfalaf a throsglwyddo £8.400 miliwn (2021-22 £6.303m) i gronfeydd wrth gefn ar gyfer gwelliannau Cyfalaf a rhaglen dal i fyny cynnal a chadw.
- Roedd ôl-ddyledion rhent ar gyfer tenantiaid presennol ar ddiwedd 2022-23 yn £2.224 miliwn, sef cynnydd o £0.297 miliwn ar y sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn 2021-22. Roedd yr ôl-ddyledion rhent fel canran o gyfanswm y rhent a oedd yn ddyledus wedi cynyddu o 1.01% ar y sefyllfa ar ddiwedd blwyddyn 2021-22.

1.3.4 ALLDRO CYFALAF 2022-23

Nod allweddol y Cyngor yw darparu rhaglen gyfalaf fforddiadwy a chynaliadwy sy'n sail i amcanion Llesiant y Cyngor. Roedd y gwariant cyfalaf ar gyfer 2022-23 yn £75.5 miliwn yn erbyn alldro amcanol o £117.7 miliwn ac fe'i hariannwyd o nifer o ffynonellau, fel y dangosir yn y tabl isod

Mae pob elfen o'r rhaglen gyfalaf, ar lefel Cyfarwyddiaeth ac ar lefel prosiectau unigol, wedi cael gradd CAG yn seiliedig ar y meini prawf manwl a ddangoswyd yn [Adroddiad Monitro Alldro Cyllideb y Cyngor Sir 2022-23](#) wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet ar 3 Gorffennaf 2023.



	2022-23			2023-24
	Rhaglen Gymeradwy Ddiweddaraf £000	Gwir Wariant £000	Gwironeddol i Rhaglen Gymeradwy Ddiweddaraf	Amcangyfrif Gwreiddiol £000
Gwariant				
Addysg	9,984	4,843	49%	15,495
Gofal Cymdeithasol	1,314	908	69%	563
Prifffyrdd a Chludiant	18,939	10,097	53%	3,140
Tai - Cronfa Gyffredinol	3,779	1,620	43%	1,166
Diwylliant a Gwasanaethau	9,018	2,457	27%	23,566
Cysylltiedig				
Cynllunio a Datblygu	18,046	9,411	52%	9,278
Amgylcheddol	7,681	3,902	51%	26,082
Corfforaethol	3,811	1,340	35%	7,658
Tai - CRT	19,139	17,321	91%	28,074
Y Fargen Ddinesig	18,987	15,376	81%	4,617
21ain Ganrif:				
Band A	447	167	37%	-
Band B	6,614	8,079	122%	18,838
Gwariant Llawn	117,759	75,521	64%	138,477
Cyllido				
Benthyca	35,798	19,722		71,285
Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau	61,573	43,261		51,150
Derbyniadau Cyfalaf a Chronfa Gyfalaf	13,427	10,419		13,877
Cronfeydd a Glustnodwyd	6,961	2,119		2,165
Cyfanswm Cyllido	117,759	75,521		138,477

Cymeradwywyd y rhaglen buddsoddi cyfalaf wreiddiol ar gyfer 2022-23 a'r rhaglen ddangosol ar gyfer 2023-24 i 2025-26 gan y Cyngor ar 3 Mawrth 2022.

Mae'r holl brosiectau cyfalaf wedi'u hadolygu i asesu eu costau cyfredol a'u cynnydd. O ganlyniad, cafodd y rhaglen ei diwygio a'i chymeradwyo gan y Cabinet ar 4 Medi 2023 i adlewyrchu'r newidiadau a ganlyn:

- Lle nad yw prosiectau yn 2022-23 wedi'u cwblhau erbyn 31 Mawrth 2023, gellir treiglo'r adnodd drosodd i 2023-24;
- Cymeradwyo a diwygio tybiaethau grant cyfalaf a wnaed yn ystod cylch y gyllideb;
- Ail-lunio ac ail-broffilio gwariant ar brosiectau penodol;
- Dileu prosiectau nad oes eu hangen mwyach; a
- Chynnwys prosiectau cyfalaf newydd sydd wedi'u cymeradwyo drwy'r broses Bid Cyfalaf.

Mae economi'r DU wedi wynebu heriau Covid-19 a Brexit. Yn ddiweddar mae pwysau chwyddiant wedi dwysau gyda chostau ynni cynyddol a phrinder nwyddau a deunyddiau.

Mae'r cynnydd cyflym mewn cyfraddau llog wedi cynyddu cost benthyca sydd yn y pen draw'n effeithio ar raglen gyfalaf y Cyngor a'i chostau cyllido cyfalaf.

Fel a adroddwyd wrth y Cabinet ym mis Rhagfyr 2022, mae'r heriau hyn wedi cael effaith andwyol ar gyflawni rhaglen gyfalaf uchelgeisiol y Cyngor. Mae costau prosiect ar gyfer cynlluniau presennol, yn benodol Cei'r De, Cei'r Gorllewin, Calon Sir Benfro a'r Parc ECO yn gweld cynnydd sylweddol mewn costau. Mae pob ymdrech yn cael ei wneud i aros o fewn y gyllideb gyda newidiadau cyfyngedig i gwmpas gwaith; fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn her i rai prosiectau.

1.3.5 RHEOLAETH TRYSORLYS

Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor a'i Strategaeth Fuddsoddi ar gyfer 2022-23 gan y Cyngor ar 3 Mawrth 2022. Dylai Dangosyddion Rheolaeth y Trysorlys bob amser gael graddfa RAG o Wyrdd - "cydymffurfio â therfynau a dangosyddion wedi'u cytuno". Yn ystod 2022-23 yr oedd cydymffurfio llawn â phob graddfa CAG yn Wyrdd, yn ddieithriad.

Roedd trafodion benthycu o fewn terfynau cymeradwy ac roedd pob buddsoddiad yn bodloni'r meini prawf teilyngdod credyd ar y dyddiad adneuo.

- Gostyngodd benthycu allanol o £203.9m i £203.1m
- Roedd y portffolio benthycu ar gyfartaledd yn £89.2m (2021-22 £71.2m) gydag incwm buddsoddi o £1.77m (2021-22 £0.17m)
- Cyfanswm y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2023 oedd £63.3m (2021-22 £73.8m)

	Balans Rhagamcanol 31/3/2023 £m	Gwir 31/3/2023 £m
Ad-daliad Ariannu Cyfalaf		
Cronfa Gyffredinol	200.6	187.4
CRT	65.8	65.8
Cyfanswm y Gofyniad Cyllido Cyfalaf	266.4	253.2
Dyled Allanol		
Benthycu Gros	243.3	203.15
Rhwymedigaethau Tymor Hir Eraill	0.2	0.21
Cyfanswm Dyled Allanol Gros	243.5	203.36

1.3.6 CASGLU REFENIW

1.3.6.1 TRETH CYNGOR

Yr arian a gasglwyd hyd at 31 Mawrth 2023 oedd £83.60m yn erbyn debyd casgladwy o £86.12m. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd casglu yn y flwyddyn o 97.07%, a oedd yn is na chyfradd casglu 2021-22 o 96.36%.

Mae Covid-19 yn parhau i gael effaith ar gyfraddau casglu Treth y Cyngor sydd, yn ddealladwy, yn is na'r blynyddoedd cyn Covid-19 (2019-20 97.65%) ond yn well nag yn 2021-22 (96.36%).

Dangosir lefel yr ôl-ddyledion ers 2019-20 yn y tabl isod:

Ôl-ddyledion Treth Gyngor	£m
2019-20	3.200
2020-21	6.033
2021-22	7.992
2022-23	7.715

Mae lefel yr ôl-ddyledion wedi gostwng tua 10% yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae hyn yn dystiolaeth bellach o gynnydd sy'n cael ei wneud gan bod y tîm yn gallu canolbwyntio ar adfer dyledion.

1.3.6.2 PREMIWM 2IL GARTREFI A PHREMIWM EIDDO GWAG HIRDYMROR

Roedd y debyd Premiwm Treth y Cyngor Ail Gartrefi a godwyd ar gyfer 2021-22 yn £2.4m a'r arian parod gwirioneddol a gasglwyd oedd £2.3m. Y debyd a godwyd ar gyfer 2022-23 oedd £4.5m a'r arian parod gwirioneddol a gasglwyd oedd £4.4m.

Mae hyn £0.7m yn is na'r ffigwr a gyllidebwyd o £5.1m oherwydd gostyngiad yn nifer sylfaenol yr unedau eiddo sy'n Ail Gartrefi. Mae hyn yn debygol o fod i'w briodoli i bremiwm uwch y Dreth gyngor ar Ail Gartrefi o 100% sydd bellach yn cael ei godi.

Y debyd Premiwm Eiddo Gwag Hirdymor a godwyd ar gyfer 2021-22 oedd £0.391m gyda'r arian parod gwirioneddol a gasglwyd yn £0.363m. Y debyd a godwyd ar gyfer 2022-23 oedd £0.386m a'r arian parod gwirioneddol a gasglwyd oedd £0.376m.

1.3.6.3 ARDRETHI BUSNES

Yr arian parod a gasglwyd hyd at 31 Mawrth 2023 oedd £49.56 miliwn yn erbyn debyd casgladwy o £50.03 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli cyfradd gasglu yn ystod y flwyddyn o 99.05% a oedd yn uwch na chyfradd gasglu 2021-22 oedd yn 98.95% ac yn cynrychioli adferiad i lefelau cynbandemig.

Ceir tablau, yn rhoi manylion yr holl gasgliadau refeniw, yn Adroddiad Monitro Alldro Cyllideb y Cyngor Sir 2022-23 wedi'i gymeradwyo gan y [Cabinet ar 11 Gorffennaf 2022](#).

1.3.7 GRANTIAU HEB FOD YN GYSYLLTIEDIG Â'R CYNGOR

Mae Cyngor Sir Penfro wedi parhau i weinyddu dosbarthu grantiau ar gyfer Lywodraeth Cymru. Nid yw'r taliadau hyn wedi'u cynnwys yn y cyfrifon rheoli a adroddwyd gan fod Cyngor Sir Penfro yn gweithredu fel asiantaeth i Lywodraeth Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos gwerth y grantiau a basiwyd i hawlwr yn ystod 2022-23:

	£000
Cyflog Byw Gwirioneddol	5,087
Grant Rhyddhad Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch	3,856
Taliadau Tanwydd Gaeaf	2,357
Grant Gofalwyr Di-dâl	899
Taliadau hunanynysu o £500	558
Taliadau Tâl Salwch Statudol i gartrefi gofal	277
Noddwr Llety Wcreineg	246
Cynllun Cymorth Bil Ynni	71
Cyfanswm	13,351

1.4 SEFYLLFA ARIANNOL 2021-22

Crynhair Mantolen y Cyngor isod ac mae'n dangos ei asedau a'i rwymedigaethau.

2021-22		2022-23	
Asedau Net	Cronfeydd Wrth Gefn	Asedau Net	Cronfeydd Wrth Gefn
Asedau Hirdymor £982m	Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u clustnodi a Derbyniadau Cyfalaf y gellir eu defnyddio £104m	Asedau Hirdymor £1,081m	Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u clustnodi a Derbyniadau Cyfalaf y gellir eu defnyddio £104m
Asedau Cyfredol llai Rhwymedigaethau Cyfredol £79m	Balans Cyffredinol Defnyddiadwy £9m	Asedau Cyfredol llai Rhwymedigaethau Cyfredol £50m	Balans Cyffredinol Defnyddiadwy £9m
Rhwymedigaethau Hirdymor (£439m)	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu defnyddio £509m	Rhwymedigaethau Hirdymor (£193m)	Cronfeydd Wrth Gefn na ellir eu defnyddio £825m
CYFANSWM NET YR ASEDau £622m	CYFAN SWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN £622m	CYFANSWM NET YR ASEDau £938m	CYFAN SWM Y CRONFEYDD WRTH GEFN £938m

1.4.1 EIDDO, PEIRIANNAU, OFFER AC ASEDau ERAILL HEB FOD YN GYFREDOL

Ni chaiff symudiad mewn prisiadau asedau yn ogystal â thaliadau cyfrifyddu megis dibrisiant unrhyw effaith ar y Dreth Gyngor na'r rhent sy'n daladwy, gan fod gofyn eu gwrthdroi o gronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio.

Mae nodyn 12.1 yn darparu manylion llawn symudiadau asedau yn ystod y flwyddyn.

Fel rhan o raglen dreigl y Cyngor, ailbrisiwyd y portffolio a reolir gan gorfforaethol a'r adeiladau gweinyddol.

Roedd y derbyniadau cyfalaf o waredu asedau eiddo yn £0.1m.

1.4.2 RHWYMEDIGAETHAU HIRDYMOR – RHWYMEDIGAETH PENSIWN

Mae'r Cyngor yn aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed, a dangosir manylion Costau Pensiwn yn Nodyn 10.4.

- Y gost i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn oedd £17.7 miliwn (£16m ar gyfer 2021-22).
- Gwarged y Cyngor yn y dyfodol o ran buddion pensiwn sy'n daladwy, o'i chymharu â'r asedau a ddeler, yw £51 miliwn ar 31 Mawrth 2023, yn seiliedig ar y tybiaethau actiwaraid diweddaraf. Mae hyn wedi cynyddu £285 miliwn ers 2021-22.
- Caiff y gronfa ei hailbrasio bob tair blynedd, a chafodd asedau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2022 eu hadlewyrchu yng nghyfrifon 2022-23.

Gweinyddir cynllun pensiwn yr Athrawon gan yr Adran Addysg yng Nghymru a Lloegr. Cynllun heb ei ariannu yw hwn, sy'n golygu nad oes asedau wedi eu buddsoddi yn cronni i dalu am gostau pensiwn cyn iddynt godi, ac felly nid oes unrhyw asedau na rhwymedigaethau cronfa yn ymddangos ym Mantolen y Cyngor.

1.4.3 CRONFEYDD WRTH GEFN


Neilltuir Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy i ddibenion penodol neu ar gyfer argyfyngau cyffredinol a rheoli llif arian. Cytunodd y Cyngor ar 10 Mawrth 2016 ar y Strategaeth ar gyfer Cadw a Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn a gellir ei gweld ar ein gwefan drwy'r ddolen gyswllt ganlynol ([Adroddiad Cyllideb Atodiad B](#)). Adolygwyd a diweddarwyd yn ffurfiol yn ystod 2022-23, gan gael ei gymeradwyo gan y Cyngor fel rhan o'r [Gyllideb Adroddiad ar 2 Mawrth 2023](#).

Mae'r rhan fwyaf o'r cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gyfer prosiectau neu ddibenion penodol, ac eithrio rhai balansau a ddelir yn y cronfeydd wrth gefn Corfforaethol nad ydynt wedi'u dyrannu at ddibenion penodol ac sy'n cael eu dal i gefnogi prosiectau Menter, Caledi nas rhagwelwyd neu flaenoriaethau'r Rhaglen Weinyddu.

Cedwir cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio i gydymffurfio â'r gofynion cyfrifyddu perthnasol ac ni ellir eu defnyddio i ddibenion penodol.

Ceir manylion cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn Nodyn 11.2, ond dangosir cronfeydd wrth gefn na ellir eu defnyddio yn Nodyn 12.12. Dengys y tabl isod y symudiad yn y balansau wrth gefn defnyddiadwy o 2016-17 hyd 2022-23.

Lle mae gwariant wedi ei ohirio a chynllun gwaith penodol wedi ei adnabod, mae'r tanwariant yma wedi ei neilltuo i'r gronfa wrth gefn i ariannu'r cynnydd mewn gwariant i ddal i fyny. Rhaid tynnu'r neilltuadau ychwanegol hyn i'r gronfa wrth gefn dros gyfnod y CATC.



1.5 RHAGOLWG ARIANNOL

Yn 2022-23 gwelwyd blwyddyn o chwyddiant digynsail, gyda'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn cyrraedd 11.1% ym mis Tachwedd 2022, y gyfradd uchaf mewn tua 40 mlynedd. Yn eu rhagolwg ym mis Mawrth 2023 (yn dilyn cyllideb Gwanwyn 2023), rhagwelodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) fod 'disgwyl i chwyddiant ostwng yn gyflym, gan gyrraedd 0% ac yna aros oddeutu'r lefel honno o ganol 2024 tan ganol 2026, cyn dychwelyd at y targed o 2% erbyn diwedd 2027'. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â'n rhagdybiaethau yn y CATC; fodd bynnag, nid yw chwyddiant wedi gostwng mor gyflym ag amcanestyniadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn chwe mis cyntaf blwyddyn ariannol 2023-24, gyda'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Medi 2023 yn dal i fod yn 6.7%, a gallai'r ansicrwydd parhaus hwn ddwyn goblygiadau sylweddol i Gyngor Sir Penfro hyd y gellir rhagweld.

Mae'r dyraniadau cyllid refeniw craidd dangosol ar lefel Cymru ar gyfer 2024-25 yn dangos cynnydd o 3.1% gyda Ni ddarparwyd unrhyw ffigurau dangosol ar gyfer 2025-26 i 2027-28.

Yn dilyn polisi cyfredol y Llywodraeth i gynnal y lefelau presennol o wariant cyhoeddus, mae cynlluniau amlinellol diweddar Llywodraeth Cymru i dorri gwasanaethau cyhoeddus a'r rhybudd yn adroddiad Dadansoddiad Cyllid Cymru bod cynlluniau gwariant cyhoeddus tynn dros y blynyddoedd nesaf hefyd yn cyfleu 'darlun pryderus ar gyfer y tymor canolig', mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) wedi cael ei ddiwygio i lawr yn Chwarter 2 2023-24 i ragdybio senario mwyaf tebygol o gynnydd o 0.0% ar gyfer y cyfnod rhwng 2025-26 a 2027-28.

Cadarnhawyd dyfarniadau cyflog staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu ar gyfer 2023-24 ym mis Tachwedd 2023 ac roeddent yn gyson â rhagamcanion a gyllidebwyd. Yn niffyg dyfarniadau dangosol ar gyfer 2024-25, mae'r cynllunio'n cynnwys tybiaethau uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd yn flaenorol oherwydd parhad lefelau chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr uwch na'r disgwyl, gyda'r cyfnod rhwng 2025-26 a 2026-27 yn cynnwys tybiaethau is sy'n gysylltiedig â rhagolygon y bydd chwyddiant yn gostwng ac y ceir setliad gwastad o ran Cyllid Allanol Cyfun. Mae'r farchnad recriwtio'n dal i fod yn gryn her, gyda llawer o wasanaethau'n profi trosiant uchel ac yn ei chael hi'n anodd recriwtio a chadw staff â chymwysterau a sgiliau addas. Er y bydd hyn yn arwain at ostyngiad mewn pwysau cyllidebol, bydd yn effeithio ar allu Cyngor Sir Penfro i ddarparu ei wasanaethau. Mae'r galw, cymhlethdod a chost sy'n gysylltiedig ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, Pecynnau Gofal Cymdeithasol mewn Gwasanaethau Plant ac Oedolion a Digartrefedd yn parhau i gynyddu. Mae angen i'r lefelau eithriadol cyfredol o gostau a brofir yn y Gwasanaethau Plant yn 2023-24 gael eu monitro'n fanwl, gyda disgwyl i'r costau barhau yn 2024-25 tra bo trefniadau ar gyfer darpariaeth amgen yn cael eu rhoi ar waith. Disgwylir i'r galw barhau i dyfu dros oes y CATC, gyda'r rhagolygon yn dangos bod y duedd yn nemograffeg cleientiaid o becynnau gofal Safonol ar gyfer Oedolion i rai drutach ar gyfer yr Henoed Eiddil ei Meddwl (EMI) a rhai at Ofynion Unigol mewn Gofal Nyrsio a Phreswyl, yn enwedig ymhlith y rhai dan 65 oed, yn debygol o barhau.


Prif elfennau'r gyllideb Cyllido Cyfalaf yw costau llog a darpariaeth ddarbodus ar gyfer ad-dalu benthyciadau. Yn dilyn 14 cynnydd yn olynol, fe wnaeth Banc Lloegr gadw'r gyfradd llog ar 5.25% ym mis Medi 2023. Er bod llithriant wrth gyflawni'r Rhaglen Gyfalaf gyfredol wedi arwain at ostyngiad rhagamcanol mewn costau benthycia a chynnydd mewn incwm buddsoddi ar gyfer 2023-24, mae'r CATC yn adlewyrchu cost gynyddol ddisgwyliedig prosiectau Cyfalaf cymeradwy uwchlaw'r sylfaen wreiddiol yn 2023-24. Cyflwynwyd papur ar fforddiadwyedd y Rhaglen Gyfalaf i'r Cabinet ar 6 Tachwedd 2023.

Bydd y risgiau hyn yn cael eu hadolygu'n fanwl gyda diweddariad chwarterol ar y CATC yn cael ei ddarparu i'r Cabinet fel rhan o adroddiad monitro'r gyllideb.

Mae'r Cyngor yn derbyn ei gyllid o ddwy brif ffynhonnell – Cyllid Allanol Cyfunol (CAC) a'r Dreth Gyngor. Mae'r Cyllid Allanol Cyfunol, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw a'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol a ailddosbarthwyd, yn cael ei ddyfarnu gan Lywodraeth Cymru. Mae ffynonellau cyllid eraill yn cynnwys grantiau penodol gan y Llywodraeth ac o Ewrop ac incwm o ffioedd a thaliadau.




Mae'r graff isod yn dangos y cyllid wedi'i gyllidebu ar gyfer 2023-24 yn erbyn cyllid gwirioneddol a chyllidebol a dderbyniwyd yn ystod 2022-23.



Nododd cyllideb 2023-24 a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 2 Mawrth 2023 fwlc h ariannu ar gyfer 2023-24 o £18.6m a'r bwlc h ariannu rhagamcanol ar gyfer CATC 2024-25 i 2026-27 o £33.1m (y senario mwyaf tebygol). Diweddarwyd y sefyllfa hon i adlewyrchu'r newidiadau mewn rhagdybiaethau y manylwyd arnynt uchod, gyda'r bwlc h rhagamcanol o ran cyllid ar gyfer y cyfnod rhwng 2024-25 a 2026-27 yr adroddwyd arno yn Chwarter 2 2023-24 yn cynyddu o £33.1m; gyda £15.9m mewn perthynas â 2024-25; i £57.5m, gyda £27.2m mewn perthynas â 2024-25.

Bydd y bwlc h ariannu ar gyfer 2023-24 yn cael ei bontio â £5.2m o incwm ychwanegol o'r Dreth Gyngor, Defnydd o £3.8m (75%) o bremiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi, £1.6m o gyfraniad o gronfa wrth gefn y Gronfa Galedi a £8.0m o arbedion cyllidebol. Mae gwaith ar y gweill i nodi sut i bontio'r bwlc h o ran cyllid ar gyfer 2024-25 a'r CATC rhwng 2024-25 a 2027-28.


Mae'r graff isod yn dangos y bwlc h ariannu mwyaf tebygol a ragwelir dros oes CATC 2023-24 i 2027-28 (diweddarwyd Cwarter 2 2023-24) ac mae'n cynnwys y pwysau chwyddiant a galw sylweddol a amlinellir uchod.



Parhaodd y Cyngor i fod â'r Dreth Gyngor (Band D) isaf yng Nghymru am 2022-23, er gwaethaf y cynnydd mwyaf o ran y Dreth Gyngor o 5%. Bydd y cynnydd yn y Dreth Gyngor o 7.5% ar gyfer 2023-24 yn cynhyrchu £5.2 miliwn ychwanegol. Ar gyfer 2023-24, cymeradwyodd y Cyngor y defnydd o £3.8m (75%) o bremiwm y Dreth Gyngor ar ail gartrefi tuag at bontio'r bwlch o ran cyllid a thbyr y bydd hyn yn parhau dros dymor y CATC (tan 2027-28).

Mae CATC 2023-24 i 2027-28 yn rhagdybio cynnydd o 7.5% y flwyddyn yn Nhref y Cyngor dros oes y CATC, gyda'r bwlch ariannu sy'n weddill yn cael ei lenwi gan arbedion cyllidebol a defnyddio premiymau Treth y Cyngor.

Dengys y graff isod sut y bydd y bwlch ariannu a ragwelir yn cael ei gyllido yn ystod oes CATC 2023-24 i 2026-27 (Diweddarwyd Chwarter 2 2023-24).



* Mae'r cynnydd yn y Dreth Gyngor yn rhagdybio na fydd newid yn Sylfaen y Dreth Cyngor o 2023-24 i 2027-28, ac mae'n cynnwys y cynnydd sy'n ymwneud â defnyddio 75% o'r Premiwm Ail Gartref.

Rheolir y defnydd o gronfeydd wrth gefn sydd wedi eu clustnodi gan y Strategaeth ar gyfer Dal a Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 2 Mawrth 2023. Ar gyfer 2023-24, cynnigir y bydd cyfraniad o £1.6m o gronfeydd wrth gefn wedi'u glustnodi (Cronfa Caledi) yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r brig disgwyliedig ym mhrisiau ynni.

Rhagwelir ar gyfer 2024-25 y bydd cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ariannu'r bwlch mewn Arbedion Cyllideb ar gyfer rhan o'r flwyddyn sy'n deillio o amser paratoi ar gyfer cyflawni; Dim gyfraniadau pellach o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd na'r balans gwaith dros y CATC, gan mai dim ond ateb "plastr" tymor byr y gall hwn fod, ond mae'r rhagolygon ariannol wedi newid yn sylweddol yn ystod 2022-23 ac efallai y bydd angen ailystyried y dull hwn.

1.5.1 RISGIAU ARIANNOL ALLWEDDOL A NODWYD YN ADRODDIAD CYLLIDEB Y CYNGOR SIR 2023-24

- Efallai na fydd blaenoriaethau'r Cabinet a nodir yn y Rhaglen Weinyddu newydd yn fforddiadwy oherwydd y rhagolygon ariannol sy'n gryn her dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
- Cadarnheir bod Dyfarniadau Cyflog Cenedlaethol a Chyfraniadau Pensiwn Cyflogwyr o fewn lefelau a gyllidebwyd ar gyfer 2023-24, ond gallent fod yn uwch na'r hyn a gyllidebwyd ar gyfer 2024-25 a'r CATC.

- Gall pwysau ychwanegol yn ystod y flwyddyn oherwydd y galw, cymhlethdod a chost Anghenion Dysgu Ychwanegol, Pecynnau Gofal Cymdeithasol mewn Gwasanaethau Plant ac Oedolion a Digartrefedd barhau i mewn i 2024-25.
- Pwysau ychwanegol yn ystod y flwyddyn oherwydd Brexit a Covid-19, nid yw'r rhyfeloedd yn yr Wcrain ac Israel, a'r argyfwng costau byw ar hyn o bryd yn hysbys felly mae risg sylweddol y bydd pwysau yn ystod y flwyddyn yn datblygu yn ystod 2023-24 ac yn parhau i mewn i 2024-25.
- Nid oedd angen y swm wrth gefn a gyllidebwyd ar gyfer 2023-24 i dalu am y pwysau cyllidebol a oedd yn ymwneud â dyfarniadau cyflog addysgu 2022-23 gan bod hyn wedi cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r arwyddion presennol gan Lywodraeth Cymru'n awgrymu mai grant untro oedd yr arian grant a gafwyd ac nad oes cyllid yn trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw; ac nad oes arian grant ychwanegol ar gael ar gyfer blyneddod ariannol 2023-24 na 2024-25 a fydd yn rhoi pwysau ychwanegol ar gyllideb 2024-25. Ni chynhwysir unrhyw arian wrth gefn arall yn y CATC, ac mae angen talu unrhyw bwysau ariannol ychwanegol yn ystod y flwyddyn o arbedion yn ystod y flwyddyn neu gronfeydd wrth gefn.
- Efallai y bydd cyfradd casglu'r Dreth Gyngor yn is na'r hyn a gyllidebwyd.
- Gallai Ôl-ddyledion Rhent barhau i gynyddu
- Gall costau Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gynyddu.
- Efallai na fydd Arian Grant yn cael ei wireddu.
- Bydd lleihau'r Gweithlu yn cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau a ddarperir.
- Costau Ariannu Cyfalaf yn dod yn anfforddiadwy – mae hyn wedi'i liniaru drwy gyflwyno cap o £14.51m y flwyddyn, i'w gynyddu gan chwyddiant o 2021-22 (£15.98m ar gyfer 2023-24); gydag argymhelliad i'r Cyngor i symud 5.3% o Wariant Net wedi'i gyllidebu o 2024-25 yn cael ei gyflwyno gan y Cabinet ar 6 Tachwedd 2023.
- Mae sail ac amcanestyniadau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael eu diwygio – mae hyn wedi cael ei liniaru trwy gyflwyno monitro a diweddarau chwarterol, gyda rhywfaint o gynllunio cynaliadwyedd ariannol tymor hwy'n cael ei wneud.
- Costau sy'n gysylltiedig â chyflawni ymrwymiad y Cyngor i garbon sero net erbyn 2030
- Setliad Cyllid Allanol Cyfun Llywodraeth Leol - gall Setliad Dros Dro 2024-25 fod yn wahanol i ddyraniadau cyllid dangosol.

1.6 DIGWYDDIADAU WEDI'R CYFNOD ADRODD

Dim.

1.7 CASGLIAD

Er gwaethaf y lefelau eithriadol o uchel o chwyddiant a dyfarniadau cyflog heb eu cyllidebu a brofwyd yn ystod 2022-23, llithriad y Rhaglen Gyfalaf a lefel uchel o swyddi gwag parhaus, parhaodd sefyllfa ariannol y Cyngor i wella drwy gydol y flwyddyn, gan arwain at sefyllfa Alldro o danwariant o £2.9m, ar ôl cyfrifo am gyfraniadau i'r cronfeydd wrth gefn ac ohonynt.

Gellir priodoli'r sefyllfa alldro well yn bennaf i'r ffaith bod lefel uchel barhaus o swyddi gwag yn gwrthbwysu costau cyflog ychwanegol a chwyddiant prisiau, a'r llithriant yn y Rhaglen Gyfalaf gan arwain at oedi cyn ysgwyddo costau benthyca a gwell incwm buddsoddi. Bydd y tanwariant o £2.9m

yn cael ei briodoli i'r Gronfa Fenter i ddarparu adnoddau i'r Cyngor fuddsoddi mewn prosiectau gwella ac i wireddu cyfleoedd i osgoi costau / gwneud arbedion cyllidebol yn y dyfodol.

Er bod cynyddu cronfeydd wrth gefn bob amser yn gadarnhaol, rhaid inni gofio y bydd y bwlch cyllido a ragwelir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023-24 i 2026-27 yn debygol o gynyddu oherwydd nad yw'r lefelau chwyddiant presennol yn lleihau cyn gynted ag y rhagwelir, a'r argyfwng costau byw, felly, mae angen inni barhau i fynd i'r afael â'r heriau ariannol hyn a symud y Cyngor i sefyllfa ariannol gynaliadwy dros y tymor canolig a'r tymor hwy. Bydd hyn yn anochel yn arwain at orfod gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn, gan swyddogion ac aelodau, ac ni ddylid defnyddio'r sefyllfa Alldro gadarnhaol i guddio'r heriau ariannol sydd o'n blaenau.

Ers dyfodiad pandemig Covid-19, mae lefel ac oedran dyledion heb eu talu wedi bod yn cynyddu'n raddol, mae'r duedd hon wedi dechrau gwrthdroi yn 2022-23 gyda'r mwyafrif o wasanaethau'n profi gostyngiad yn lefel eu gofyniad am ddarpariaeth drwg-ddyledion ar gyfer dyledion heb eu casglu gan ddyledwyr masnach.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am ein Datganiad o Gyfrifon, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Adnoddau, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP. Bydd ein Datganiad Cyfrifon hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.



Jonathan Haswell
FCCA
Cyfarwyddwr Adnoddau



2.0 ADRODDIAD YR ARCHWILYDD

Cygnor Sir Penfro – Datganiad Cyfrifon Blynnyddol 2022-23



Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyngor Sir Penfro sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Ebrill 2024

1 Capital Quarter
Caerdydd
CF10 4BZ



3.0 DATGANIAD O GYFRIFON

Cygnor Sir Penfro – Datganiad Cyfrifon Blynnyddol 2022-23



3.0 DATGANIAD O GYFRIFON

3.1 DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU

CYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR

Mae gofyn i'r Cyngor wneud y canlynol:

- Gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau bod gan un o'i swyddogion gyfrifoldeb dros weinyddu'r materion hynny. Yn yr Awdurdod hwn, y cyfryw swyddog yw'r Cyfarwyddwr Cyllid.
- Rheoli ei faterion i sicrhau defnyddio adnoddau'n ddarbodus, effeithlon ac effeithiol a gwarchod ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

CYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWR CYLLID

Y Cyfarwyddwr Cyllid sy'n gyfrifol am baratoi datganiad cyfrifon yr awdurdod yn unol ag arferion priodol ar sail Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod).

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Prif Swyddog Cyllid wedi gwneud y canlynol:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna'u cymhwyso'n gyson;
- barnu a gwneud amcangyfrifon oedd yn rhesymol a doeth;
- cydymffurfio â Cod yr awdurdod lleol.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid hefyd wedi gwneud y canlynol:

- cadw cyfrifon priodol oedd yn gyfoes;
- cymryd camau rhesymol er mwyn atal a datgelu twyll ac anghysondebau eraill.

TYSTYSGRIF Y CYFARWYDDWR CYLLID

Mae Datganiad Cyfrifon Cyngor Sir Penfro am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 yn Adrannau 4-14, a chaiff ei gynhyrchu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Diwygio). Mae'r Rheoliadau'n pennu cynnwys y Datganiad Cyfrifon ac ar y cynnwys yn unig y caiff barn yr Archwiliad ei mynegi.

Tystiaf fod y cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Penfro fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2023 a'i incwm a gwariant am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 ac atodaf fy llofnod i'r Datganiad yn unol â Rheoliad 10(1).



J HASWELL FCCA

Cyfarwyddwr Adnoddau

YDDIAD: 21 Rhagfyr 2023

HYSBYSU A CHYMERADWYO

Adroddir y cyfrifon hyn, a gyhoeddwyd i ddechrau ar 15 Rhagfyr 2023, i'r Cyngor Llawn i'w cymeradwyo ar Mai 2024, ar ôl i'r Archwiliad Blynnyddol ddod i ben. Dangosir y dystysgrif archwilio yn adran 2.0.



Cynghorydd Simon Hancock

Cadeirydd y Cyngor

Dyddiad: 9 Mai 2024



4.0 DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD EGWYDDORION SYLFAENOL

Cygnor Sir Penfro – Datganiad Cyfrifon Blynnyddol 2022-23



4.0 DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD - EGWYDDORION SYLFAENOL

Caiff y safonau cyfrifyddu, cysyniadau, barnau beirniadol a pheryglon cynhenid, a pholisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol craidd eu cyflwyno yn Adran 8.0.

4.1 SAFONAU CYFLWYNO ADRODDIADAU ARIANNOL

Mae'r Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol a Safonau Eraill a gyhoeddwyd wedi'u cymhwyso fel sy'n ofynnol o dan y Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol 2022-23, ac mae'r Datganiad o Gyfrifon a nodir yn Adrannau 4-15 wedi'i baratoi yn unol â'r Cod.

Mae'r Cod Ymarfer yn gofyn bod yr Awdurdod yn dadlennu gwybodaeth berthnasol i effaith newid cyfrifyddol fydd yn ofynnol oherwydd safon newydd a gyhoeddwyd ond na fabwysiadwyd eto gan y Cod ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol.

SAFONAU CYFRIFYDDU WEDI'U CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Bydd awdurdod yn datgelu gwybodaeth yn ymwneud ag effaith newid cyfrifyddu a fydd yn ofynnol gan safon newydd sydd wedi'i chyhoeddi ond heb ei mabwysiadu eto. Rhaid i awdurdod ddarparu gwybodaeth hysbys neu rhesymol amcangyfrifadwy sy'n berthnasol i asesu'r effaith bosibl y bydd cymhwyso'r IFRS newydd yn ei chael ar ddatganiadau ariannol yr awdurdod gan gynnwys y datganiadau grŵp yn ystod cyfnod y cais cychwynnol. Mae'r gofyniad hwn yn berthnasol i safonau cyfrifeg sy'n dod i rym am flynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu cyn 1 Ionawr y flwyddyn ariannol dan sylw (h.y. ar neu cyn 1 Ionawr 2023 ar gyfer 2023-24). Ar gyfer y datgeliad hwn, mae'r safonau a gyflwynwyd gan God 2023-24 yn cynnwys:

- a) Diffiniad o Amcangyfrifon Cyfrifeg (Diwygiadau i IAS 8) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.
- b) Datgelu Polisiâu Cyfrifeg (Diwygiadau i IAS 1 a Datganiad Ymarfer IFRS 2) a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021.
- c) Treth Gohiriedig sy'n gysylltiedig ag Asedau a Rhwymedigaethau sy'n codi o Drafodiad Sengl (Diwygiadau i IAS 12) a gyhoeddwyd ym mis Mai 2021. Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24 308.
- d) Diweddaru cyfeiriad at y Fframwaith Cysyniadol (Diwygiadau i IFRS 3) a gyhoeddwyd ym mis Mai 2020.

RHEOLIADAU AWDURDODAU LLEOL (CYLLID CYFALAF A CHYFRIFYDDU) (CYMRU) (DIWYGIAD) 2022 / DIWYGIAD I GOD CIPFA

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ar hyn o bryd y daw'r offeryn statudol sy'n diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 i rym ym mis Rhagfyr 2022. Mae hyn yn dilyn trafodaethau helaeth ar effaith canlyniad ymgynghoriad y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r Pwyllgor Cynghori ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol (yr Alban) ar drin asedau seilwaith.

Mae'r Diweddariad yn diwygio Codau 2021-22 a 2022-23 (a gall fod yn berthnasol i gyfrifon awdurdodau lleol lle nad oes barn wedi'i rhoi eto) ac mae'n cynnwys manylebau ar gyfer Codau yn y dyfodol er y bydd y manylebau hyn hefyd yn cael eu cynnwys yn y Codau hynny er cyflawnrwydd. Cyhoeddodd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ei ganllawiau cyfrifyddu terfynol yn gynnar ym mis Ionawr 2023.

Mae CIPFA wedi darparu Diweddariad i'r Cod a Manylebau ar gyfer Codau ar gyfer Asedau Seilwaith yn y Dyfodol (Diweddariad Tachwedd 2022) yn darparu manylebau diwygiedig ar y datgeliad ar gost gros a dibrisiant cronedig ar gyfer asedau seilwaith. Mae'r Diweddariad yn caniatáu rhyddhad dros



dro i awdurdodau lleol. Bydd y Rhyddhad Dros Dro ar gyfer adrodd ar gostau gros asedau seilwaith a dibrisiant cronedig yn berthnasol tan ddiwedd blwyddyn adrodd ariannol 2024/25 a bydd yn cael ei ymgorffori yng Nghodau 2023/24 a 2024/25. Rhagwelir y bydd yr ateb tymor hwy ar gyfer adrodd ar asedau seilwaith yn cael ei roi ar waith o 1 Ebrill 2025.

Fel sy'n ofynnol gan y cod wedi'i ddiweddarau, os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu peidio â rhoi gwybod am gostau gros a dibrisiant cronedig oherwydd nad yw'r wybodaeth yn cynrychioli'n gywir y wybodaeth ofynnol ar gyfer asedau seilwaith, rhaid i'r nodyn datgelu ar eiddo, peiriannau a chyfarpar hysbysu hyn. Darperir hyn yn Adran 12.1.1.1.





5.0 CYSYNIADAU CYFRIFYDDU

Cygnor Sir Penfro – Datganiad Cyfrifon Blynnyddol 2022-23



5.0 CYSYNIADAU CYFRIFYDDU

Defnyddiwyd y cysyniadau cyfrifyddu treiddiol canlynol wrth baratoi'r Datganiadau Cyfrifyddu Craidd:

- Sail croniadau
- Busnes hyfyw

Mae nodweddion ansoddol gwybodaeth ariannol ddefnyddiol yn dal i gael eu defnyddio:

- Perthnasedd
- Cymaroldeb
- Gwiriadwyedd
- Amseroldeb
- Eglurder
- Perthnasedd
- Cynrychiolaeth Ffyddlon
 - Cyflawnder
 - Amhleidioldeb
 - Rhydd o wallau
- Uchafiaeth gofynion deddfwriaethol





6.0 BARNAU BEIRNIADOL

Cygnor Sir Penfro – Datganiad Cyfrifon Blynyddol 2022-23



6.0 BARNAU BEIRNIADOL WRTH GYMHWYSO POLISIÂU CYFRIFYDDU AC AMCANGYFRIF PERYGLON

Wrth gymhwyso'r polisiâu cyfrifyddu yn Nodyn 8.0 mae'r Cyngor wedi gwneud penderfyniadau ynghylch y trafodion cymhleth a'r rhai sy'n cynnwys ansicrwydd yn y blynyddoedd a ddaw.

- Er bod cryn dipyn o ansicrwydd ynghylch faint o gymorth ariannol a gaiff llywodraeth leol yn y dyfodol, nid oes digon o dystiolaeth i ddod i gasgliad y gall hyn amharu ar unrhyw rai o asedau'r Cyngor o ganlyniad.
- Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol ailbrisio asedau bob 5 mlynedd o leiaf, ond rhaid eu hailbrisio'n fwy rheolaidd lle nad yw prisiad bob pum mlynedd yn ddigonol i aros gyfuwch â newidiadau materol mewn Gwerth Teg. Rôl "adolygiad o'r farchnad" yw adrodd ar symudiad mewn cost a / neu werth sy'n berthnasol i brisiadau asedau ers y dyddiad prisio. Os yw'r farchnad wedi newid a bod angen cynnal ailbrisiadau, bydd y rhain yn cael eu gwneud ar sail bwrdd gwaith. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad prisio, ni nodwyd unrhyw ddiwygiadau pellach ar gyfer 2022-23.
- Dan rai amgylchiadau bu angen amcangyfrif y taliadau a wnaed yn y cyfrifon trwy ddefnyddio profiad hanesyddol, tueddiadau presennol ac ati. Fe all yr union ganlyniadau fod yn wahanol i'r hyn a dybiwyd ac effeithio, o ganlyniad, ar y taliadau a wneir yng nghyfrifon blynyddoedd a ddaw.
- Diwygiwyd yr amlen gyllido o £106.400m ar gyfer rhaglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru i £160.079m, gyda £86.829m yn ymwneud â'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MBC) a £73.250m yn ymwneud â'r prosiectau cyfalaf. Nid yw hyn yn ddigonol i gwblhau'r holl brosiectau o fewn y Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP) wreiddiol ac mae i'w briodoli'n bennaf i'r hinsawdd economaidd bresennol sydd wedi arwain at gostau cynyddol ar gyfer contractau a phroblemau capasiti'r farchnad, a gostyngiad yn yr elfen prosiectau cyfalaf sy'n werth £106.400m o ganlyniad i newid prosiectau Ysgolion Uwchradd a Chynradd Aberdaugleddau i'r model buddsoddi cydfuddiannol. Mae cost ragamcanol prosiect Ysgol Portfield yn fwy na'r cyllid prosiect cyfalaf sydd ar gael oherwydd bod £49.480m eisoes yn cael ei ddefnyddio ar gynlluniau presennol (Ysgol Uwchradd Wirfoddol a Reolir Hwlfordd a Waldo Williams). Bydd yn rhaid dod o hyd i'r diffyg trwy beirianeg gwerth neu fenthycia darbodus, gan gydnabod y risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â'r cap ar gostau cyllido cyfalaf blynyddol.
- Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 14 Rhagfyr 2023 i newid y model ariannu ar gyfer Ysgolion Uwchradd a Chynradd Aberdaugleddau o'r llwybr cyllido Model Buddsoddi Cydfuddiannol i gyllido Cyfalaf. Yn ogystal ag ysgolion Aberdaugleddau; mae Prosiectau Cyfalaf Canolfan Ddysgu/Uned Cyfeirio Disgyblion Sir Benfro ac Ysgol Bro Preseli hefyd wedi'u cynnwys mewn Rhaglen Amlinellol Strategol i'w hystyried a'u cymeradwyo gan y Cyngor Llawn, cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Llofnodwyd Trefniant Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cynnwys Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Gâr, Castell-nedd Port Talbot Cyngor Sir a Chyngor Dinas Abertawe gan Brif Weinidog y DU ar 20 Mawrth 2017. Mae'n golygu gwario £1.3bn o fuddsoddiad preifat a chyhoeddus dros 15 mlynedd.

Ym mis Mehefin 2020 derbyniodd achos busnes prosiect Pembroke Dock Marine gymeradwyaeth i fod yn rhan o raglen gyffredinol Bargaen Dinas Bae Abertawe. Oherwydd amseriad y grant o £28.0 miliwn, bydd y prosiect hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fenthycia £10.4 miliwn. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar gyfraniad mwyafswm ariannol o £1.0



filiwn i gefnogi costau benthyca ar gyfer y prosiect. Llofnodwyd y cytundeb rhwng y Corff Cyfrifol a'r Cyngor ar 23 Chwefror 2021 a llofnodwyd y cytundebau rhwng y Cyngor a'r pedwar partner cyflenwi ar 2 Gorffennaf 2021.

Yn ogystal, mae yna 3 phrosiect rhanbarthol, Seilwaith Digidol, Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer a Sgiliau a Thalentau. Oherwydd amseriad y grant ar y prosiectau hyn, bydd yn ofynnol i'r Cyngor fenthyca.

- Yn dilyn etholiadau Mai 2022, yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 26 Mai 2022 ailbenodwyd yr Arweinydd gan ffurfio Cabinet newydd. Bydd Rhaglen Weinyddu newydd yn ei lle erbyn Ionawr 2023 a chymeradwywyd Strategaeth Gorfforaethol newydd, gan osod a mynegi amcanion llesiant y Cyngor ar gyfer 2023-28 gan y Cyngor ym mis Mai 2023.
- Mae Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CGDG) wedi'i ddangos yn gros yn segment Cost Gwasanaethau o'r Datganiad Cynhwysfawr o Incwm a Gwariant yn hytrach na'i ddangos yn net oddi ar Incwm y Dreth Gyngor yn segment Trethiant ac Incwm Grant Amhenodol. Gan nad oes cyfeiriad penodol at y driniaeth gyfrifyddu briodol ar gyfer CGDG yng Nghod Ymarfer neu Ganllawiau Cyfrifyddu CIPFA, dibynnwyd ar IPSAS 23 – refeniw o Drafodion nad ydynt yn Gyfnewid (trethi a throsglwyddiadau). Mae'r safon hon yn berthnasol i gyrff y sector cyhoeddus a dywed y dylid penderfynu refeniw trethiant fel swm gros; ni ddylid ei leihau oherwydd treuliau y talwyd amdanynt drwy'r system drethi.
- Daeth Addysg drwy Weithio Rhanbarthol (GRhA), a oedd gynt yn gynghrair o hyd at chwe awdurdod lleol ond yn ddiweddarach pedwar, i ben ar 31 Mawrth 2022 gyda Partneriaeth, cynghrair o dri awdurdod lleol - Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro a Dinas a Sir Abertawe yn dechrau ar 1 Ebrill 2022 o dan gytundeb cyfreithiol newydd. Fel gydag GRhA, Cyngor Sir Penfro yw'r corff sy'n cyflogi staff y Bartneriaeth ac mae'n cynnal cyllid/cyfrifon y Bartneriaeth (gweler nodyn 10.7.4.4 ar gyfer elfen Cyngor Sir Penfro o Gyfrifon Partneriaeth), gan ddarparu gwasanaethau ariannol, archwilio mewnol, TGCh, AD a chymorth caffael i Bartneriaeth drwy gytundebau lefel gwasanaeth.

Mae'r prif feysydd peryglon i'w gweld yn y tabl canlynol:

Materion perthnasol i eitemau yn y casgliad cyfrifon cyfredol:		
Eitem	Perygl	Effaith Bosibl
Ymrwymadau Cytundebol	Meintoliad anghywir a sialens gyfreithiol	Tâl ychwanegol ar drethdalwyr yn y dyfodol
Darpariaethau	Meintoliad anghywir	Tâl ychwanegol ar drethdalwyr yn y dyfodol
Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Band A & Band B)	Tybiaethau costau anghywir Cynnydd mewn cyfraddau llog uwchlaw cyfraddau LGBT	Costau cytundebol uwch Taliad dyled uwch gan gostio mwy i drethdalwr
Asedau Di-gyfredol	Bywyd Defnyddiol Ansicrwydd Deunydd Prisio	Tâl dibrisiad anghywir Prisio Anghywir Asedau
Atebolrwydd Pensiwn	Tybiaethau actiwaraidd yn anghywir	Mwy o gyfraniadau Cyflogwr yn y dyfodol / tâl ychwanegol i drethdalwr yn y dyfodol
Mesur Diwygio Lles	Tybiaethau anghywir	Cynyddiad mewn costau gwasanaeth gan gynnwys
Newidiadau demograffig	Tybiaethau anghywir	Costau gwasanaeth a chytundebol uwch
Cymorth Grant	Colli grantiau Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac Ewrop	Darparu llai o wasanaeth

Materion a allai effeithio ar y cyfrifon yn y dyfodol:		
Eitem	Perygl	Effaith Bosibl
Llywodraethu	Penderfyniad heb ei wneud neu heb ei wneud mewn pryd	Gorwario / tanwario'r gyllideb a cholli cymorth grant
Trefniadau Cytundebol	Sefydliad mawr yn y sector preifat yn mynd mewn i Weinyddiaeth.	Oedi l ddarpariaeth gwasanaeth a chostau cynyddol.
Gweddnewid / Cyflenwi Gwasanaethau'n Wahanol	Ffyrdd newydd o weithio heb ddod â'r arbediadau ariannol a dybiwyd	Gorwario / tanwario'r gyllideb Trefniadau cyfrifyddu ar wahân
Ansicrwydd Prisio	Rhagdybiaethau anghywir Gwall Dynol yn ystod mewnbwn	Prisiadau anghywir yn y fantolen – drosodd/danodd
Asedau Isadeiledd	Camddehongli Cod Ymarfer wedi'i ddiweddarau	Barn archwilio amodol
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Heb ystyried y ddeddf wrth wneud penderfyniadau	Cost camau unioni
Dinas-ranbarth Bae Abertawe	Pwysau ychwanegol yn CATC	Gofyniad cyllideb / gorwario
Ad-drefnu Ysgolion / Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Band B)/ Rhaglen Treigl Naw Mlynedd	Methu darparu'r gwasanaeth o fewn cyllidebau presennol Tybiaethau costau anghywir Prinder deunyddiau adeiladu a chynnydd mewn prisiau. Penderfyniad i barhau â MIM Tybiaethau ariannu anghywir gan gynnwys chwyddiant a chostau adeiladu.	Gorwario cyllidebol Costau cytundebol uwch
Ad-drefnu rhenti tai	Tybiaethau cynllun busnes Anghywir Torri terfynau incwm CRT	Costio mwy i denantiaid yn y Dyfodol Ymyrraeth Llywodraeth Cymru
Brexit	Risg cyfradd gyfnewid. Risg o dariffau masnach. Llai o gapasiti yn y farchnad gofal cymdeithasol gan ddarparwyr allanol	Costau cynyddol i wasanaethau yn arwain at oedi wrth ddarparu gwasanaethau oherwydd prinder cyflenwad nwyddau a gwasanaethau Cynnydd yn y gost i wasanaeth Gostyngiad yn y ddarpariaeth gwasanaeth
Trefniadau Cytundebol	Sefydliadau sector preifat mawr Ym mynd l ddwylo'r gweinyddwyr	Oedi l ddarpariaeth gwasanaeth a chostau cynyddol.

Materion a allai effeithio ar y cyfrifon yn y dyfodol:		
Eitem	Perygl	Effaith Bosibl
Cyllid Grant	Colli grantiau Llywodraeth Cymru ac Ewrop	Darparu llai o wasanaeth Costau cynyddol i wasanaethau
Effaith Covid-19	Llai o arian gan Lywodraeth Cymru a chodiadau Treth y Cyngor	Gostyngiadau cynyddol mewn costau/effeithlonrwydd dros gwasanaethau'r cyngor, blaenoriaethu gwasanaeth er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys
Pont Cleddau	Nid yw iawndal o £60m dros 20 mlynedd yn cydnabod risg chwyddiant dros amser Gohiriwyd rhandaliadau blyneddol o £3m neu adfachu grantiau gan Lywodraeth Cymru	Cost gwasanaeth uwch dros amser Llai o lif arian a bwch yn y gyllideb
Rhyfel yn yr Wcrain	Ansefydlogrwydd ac ansicrwydd economaidd	Costau cynyddol darparu gwasanaeth a cholli incwm Cynnydd mewn dyledion drwg yn ymwneud â gwasanaethau a chasglu Treth y Cyngor
Argyfwng Costau Byw	Ansefydlogrwydd ac ansicrwydd economaidd	Costau cynyddol darparu gwasanaeth a cholli incwm Cynnydd mewn dyledion drwg yn ymwneud â gwasanaethau a chasglu Treth y Cyngor
Polisi'r Llywodraeth	Ansefydlogrwydd ac ansicrwydd economaidd Diwygio'r Dreth Gyngor	Costau uwch darparu gwasanaeth a cholli cynhyrchu incwm heb ei dalu gan gynnydd yn y setliad ariannol.
Cyfraddau Llog	Ansefydlogrwydd ac ansicrwydd economaidd	Bydd costau benthyca uwch yn cael effaith andwyol ar y gyllideb refeniw. I'r gwrthwyneb, bydd incwm buddsoddi yn elwa o gynnydd ffafriol mewn cyfraddau llog.
Ansicrwydd Prisio	Newidiadau sylweddol ym mhatrwm defnydd economaidd Rhagdybiaethau anghywir Gwall Dynol yn ystod mewnbyn	Angen adnoddau ychwanegol i gynnal prisiau ychwanegol Prisiau anghywir yn y fantolen – drosodd/danodd
Asedau Isadeiledd	Camddehongli Cod Ymarfer wedi'i ddiweddarau	Barn archwilio amodol



7.0 DATGANIADAU ARIANNOL CRAIDD CYDRANNAU A MANYLION



Y datganiadau ariannol craidd, a baratowyd gan ddefnyddio Safonau Rhyngwladol Cyflwyno Adroddiadau Ariannol, (IFRS) yw'r canlynol:

- Y Dadansoddiad o Wariant a Chyllido – gan ddangos y cymod rhwng sut mae gwariant blyneddol yn cael ei ddefnyddio a'i ariannu o adnoddau (sail arian) gan yr Awdurdod o'i gymharu â'r adnoddau hynny a ddefnyddir neu a enillir gan yr Awdurdod yn unol ag arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (sail IFRS).
- Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – sy'n dangos y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol ag arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol (sail IFRS) yn hytrach na'r gost a gyllidwyd mewn gwirionedd o drethiant. Caiff y cysoniad â'r sefyllfa drethiant, fel sy'n cael ei gynrychioli gan y gwir gyllid ar gael i'r Cyngor, ei ddangos yn y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid.
- Y Datganiad Symudiad Cronfeydd – sy'n dangos y symudiad yn y gwahanol gronfeydd sydd gan yr awdurdod, wedi'u dadansoddi rhwng cronfeydd defnyddiadwy a chronfeydd andefnyddiadwy sy'n cael eu dal at ddibenion cyfrifyddu ariannol.
- Y Fantolen – sy'n dangos y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth o ran gwerth asedau a dyledion cydnabyddedig gan y Cyngor a'r cronfeydd sydd gan y Cyngor.
- Y Datganiad Llif Arian – sy'n crynhoi mewnloedd ac all-lifoedd arian a chywerthoedd arian parod gydag eraill yn deillio o drafodion cyllid a chyfalaf.

Nodiadau Esboniadol a Datganiadau Ariannol Atodol

Y rhain yw:

- Y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid.
- Nodiadau ar y datganiadau ariannol craidd
- Cyfrifon eraill sy'n cael eu paratoi neu reoli gan y Cyngor.
- Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Cyllid Tai, Symudiad ar Ddatganiad y Cyfrif Cyllid Tai a nodiadau esboniadol sy'n crynhoi'r trafodion cysylltiedig â Thai'r Cyngor.

Cyfrifon Grŵp

Pan fo hynny'n briodol, rhaid paratoi cyfrifon grŵp i adlewyrchu cyfanswm cost darparu gwasanaethau trwy gynnwys gwariant, incwm ac asedau a rhwymedigaethau priodol cyrff "atodol" y mae gan y Cyngor fudd a dylanwad perthnasol ynddynt. Ystyriwyd a oes angen cyfrifon grŵp a barnwyd nad ydynt yn angenrheidiol.

Ers 2014-15, ymgorfforwyd incwm a gwariant crynswth Pwll Dinbych-y-pysgod a'r gwerthoedd asedau sefydlog yn Natganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r Cod.

Mae rhagor o fanylion am drefniadau'r Cyngor ar y cyd yn cael eu cyflwyno yn nodiadau 10.7.4.4.

Dengys y datganiad hwn y cysoniad rhwng sut gaiff gwariant blyneddol ei ddefnyddio a'i gyllido o adnoddau (grantiau'r llywodraeth, rhenti, treth y cyngor a threthi busnes) gan awdurdodau lleol fel yr hysbyswyd i'r rheolwyr mewn cymhariaeth â'r adnoddau hynny a ddefnyddiwyd neu a enillwyd gan awdurdodau, yn unol ag arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol (sail IFRS). Mae hefyd yn dangos sut gaiff y gwariant hwn ei neilltuo at ddibenion penderfynu rhwng gwasanaethau'r

Cyngor. Caiff incwm a gwariant a gyfrifwyd dan arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol eu cyflwyno'n llawnach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2021-22				2022-23		
Gwariant Clir Taladwy i'r Gronfa Gyffredinol a Gweddill CRT £000	Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a Chyfrifyddu (Nodyn 9.1) £000	Gwariant Clir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £000		Gwariant Clir Taladwy i'r Gronfa Gyffredinol a Gweddill CRT £000	Addasiadau rhwng y Sail Gyllido a Chyfrifyddu (Nodyn 9.1) £000	Gwariant Clir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £000
99,436	1,229	100,665	Gwasanaethau Addysg	105,238	25,493	130,731
15,123	1,953	17,076	Gwasanaethau Plant	17,049	4,950	21,999
58,004	2,466	60,470	Gwasanaethau Oedolion	65,902	4,752	70,654
1,120	(86)	1,034	Gwasanaethau Tai	1,391	894	2,285
-	(26,066)	(26,066)	Tai'r Cyngor	-	4,371	4,371
8,951	6,827	15,778	Gwasanaethau Priffyrdd a Chludiant	10,096	6,214	16,310
5,444	2,436	7,880	Diwylliant a Gwasanaethau Cysylltiedig	6,206	6,841	13,047
1,571	1,705	3,276	Gwasanaethau Cynllunio	2,270	7,134	9,404
15,808	2,945	18,753	Gwasanaethau Amglycheddol	16,504	3,426	19,930
14,391	(2,269)	12,122	Gwasanaethau Canolog, Corfforaethol a Democrataidd Eraill	14,009	554	14,563
9,506	-	9,506	Cynllun Lleihau Treth Cyngor	9,482	-	9,482
289	16	305	Gwasanaethau Llys	334	64	398
-	-	-	Eiddo gwag tymor hir*	376	(376)	-
1,319	(1,253)	66	Cynllun Tai Fforddiadwy*	3,272	(3,141)	131
1,319	(423)	896	Cyfraniadau l'r Gymuned*	1,091	(186)	905
232,281	(10,520)	221,761	Costau Clir Gwasanaethau (gan gynnwys CRT) / Diffyg ar Weithrediadau Parhaol	253,220	60,990	314,210
8,240	17,370	25,610	Gwariant Gweithredu Arall	8,527	19,685	28,212
10,213	4,572	14,785	Cyllido a Buddsoddiad Incwm a Gwariant	8,985	4,558	13,543
(251,734)	(75,080)	(326,814)	Incwm trethiant a grantiau amhenodol*	(270,732)	(50,735)	(321,467)
(1,000)	(63,658)	(64,658)	(Gwarged) neu Ddiffyg	-	34,498	34,498

* Mae Premiwm Treth Gyngor Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor yn cael eu dangos ar wahân yn y Cyfrifon Rheoli ond wedi eu cyfuno yn nhablau'r Datganiad o Gyfrifon.

	2021-22 Gwariant Clir £000	2022-23 Gwariant Clir £000
Cronfa Gyffredinol Agoriadol a Gweddill CRT	(7,752)	(8,752)
llai / ynghyd â Gwarged neu (Ddiffyg) yn y Gronfa Gyffredinol a Gweddill CRT yn y flwyddyn	(1,000)	-
Cronfa Gyffredinol Derfynol a Gweddill CRT ar 31 Mawrth**	(8,752)	(8,752)

** Ar gyfer rhaniad o'r cydbwysedd hwn rhwng y Gronfa Gyffredinol a'r CRT gweler nodyn 7.3 Symudiad yn y Datganiad Cronfeydd Wrth Gefn



7.2 DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost economaidd o ddarparu gwasanaethau yn y flwyddyn yn unol ag arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol, yn hytrach na'r swm i'w gyllido o drethiant. Bydd awdurdodau'n codi trethi yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifyddol. Caiff y sefyllfa drethiant ei dangos yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd isod.

Mae modd crynhoi'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel a ganlyn:

7.2.1 GWARGED / DIFFYG AR WEITHREDIADAU PARHAOL

Sy'n dadansoddi yn ôl grwpiau gwasanaethau, yr incwm a gwariant arferol ar eitemau fel talu cyflogeion, costau cynnal gwasanaethau, taliadau cyfalaf, grantiau penodol i wasanaeth, rhenti, ffioedd a thaliadau.

Yn unol â gofynion y Cod, mae incwm a gwariant gweithredu gwasanaethau'n cynnwys y canlynol. Nid yw'r rhain yn ffurfio rhan o'r amcangyfrifon at ddibenion codi treth, heb beri unrhyw gost glir uniongyrchol i'r trethdalwr yn y flwyddyn, ond sy'n ofynnol i fesur cost economaidd sylfaenol gwasanaethau yn unrhyw flwyddyn:

- derbyniadau dan 10k yn deillio o werthu asedau. Caiff swm o £17k ei gynnwys yn incwm Craidd Corfforaethol a Democrataidd a neilltuwyd i Gronfa Derbyniadau Cyfalaf yn unol â pholisïau cyfrifyddu
- miscellaneous receipts not related to disposal of assets. Caiff swm o £57k ei gynnwys yn incwm Craidd Corfforaethol a Democrataidd a neilltuwyd i Gronfa Derbyniadau Cyfalaf yn unol â pholisïau cyfrifyddu
- caiff y costau "tybiannol" canlynol eu cynnwys hefyd sy'n cael eu "gwyrdroi allan" yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd:
 - gwariant cyllidol a gyllidwyd o gyfalaf trwy statud a grantiau
 - costau dibrisiad ac amhariad asedau sefydlog
 - costau pensiynau gwasanaeth presennol
 - buddiannau cyflogeion cronedig

7.2.2 GWARIANT GWEITHREDU ARALL AC INCWM A GWARIANT CYLLIDO A BUDDSODDI

Sy'n ychwanegu'r canlynol at y Gwarged / Diffyg mewn Gweithrediadau Parhaol:

- archebiannau ac ardollau
- gweithgareddau asiantaeth
- llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau allanol a llog a dalwyd ar fenthyciadau allanol
- cost gostwng premiymau a gostyngiadau cysylltiedig ag ad-drefnu'r portffolio benthyciadau

Yn ogystal, mae'r Cod yn gofyn bod y costau canlynol, nad oes cyllideb ar eu cyfer naill ai am eu bod yn dybiannol neu nad ydynt yn peri unrhyw gost glir uniongyrchol i'r trethdalwr yn y flwyddyn, yn cael eu hychwanegu hefyd:

- cost glir llogau pensiynau
- enillion neu golledion ar wared asedau a chostau gwerthiannau.

7.2.3 TRETHIANT A GRANTIAU AMHENODOL

Sy'n dangos yr incwm a ddaw o drethiant cyffredinol ar ffurf cymorth cyllid ac incwm grantiau amhenodol eraill, trethi annomestig cenedlaethol a threth y cyngor. Caiff grant cyfalaf cyffredinol a chyfraniadau at ddibenion cyfalafol eu cydnabod fel incwm cyllidol dan y Cod.



7.2.4 INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL

Sy'n dangos y gwarged neu ddiffyg yn deillio ailbrisio asedau sefydlog ac ariannol ac ailfesur asedau a rhwymedigaethau pensiynau.

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Nodyn	2021-22			2022-23		
		Cyfanswm Cost Crynswth	Incwm	Cyfanswm Cost / Gwariant Clir	Cyfanswm Cost Crynswth	Incwm	Cyfanswm Cost / Gwariant Clir
		£000	£000	£000	£000	£000	£000
Gwasanaethau Addysg		136,018	(35,353)	100,665	163,070	(32,339)	130,731
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Plant		27,395	(10,319)	17,076	29,079	(7,080)	21,999
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Oedolion		100,801	(40,331)	60,470	102,968	(32,314)	70,654
Gwasanaethau Tai		31,292	(30,258)	1,034	31,009	(28,724)	2,285
Tai'r Cyngor		191	(26,257)	(26,066)	31,939	(27,568)	4,371
Gwasanaethau Prifffyrdd a Chludiant		28,265	(12,487)	15,778	28,833	(12,523)	16,310
Gwasanaethau Diwylliannol a Chysylltiedig		14,268	(6,388)	7,880	19,062	(6,015)	13,047
Gwasanaethau Cynllunio		13,354	(10,078)	3,276	27,007	(17,603)	9,404
Gwasanaethau Amgylcheddol		28,288	(9,535)	18,753	27,018	(7,088)	19,930
Gwasanaethau Canolog, Corfforaethol a Democrataidd Eraill		16,771	(4,649)	12,122	21,026	(6,463)	14,563
Cynllun Lleihau Treth Cyngor		9,506	-	9,506	9,482	-	9,482
Gwasanaethau Llys		412	(107)	305	528	(130)	398
Y Dreth Gyngor Cartref		962	-	962	1,036	-	1,036
(Gwarged) / Diffyg ar Weithrediadau Parhaol		407,523	(185,762)	221,761	495,057	(177,847)	314,210
Gwariant Gweithredu Arall							
Archebiannau ac Ardollau	10.2			26,214			28,375
Enillion a Cholledion o Wared Asedau Anghyfredol				(604)			(163)
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi							
Llog Taladwy				9,600			9,353
Llog ac Incwm o Fuddsoddiad				(219)			(1,906)
Llog Pensiynau Clir	10.4.1			5,404			6,096
Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol							
Grant Cynnal Cyllid (gan gynnwys Grant Arbennig)	10.1.1			(139,576)			(150,387)
Cyfran Cronfa NNDR				(42,233)			(45,870)
Trethdalwyr Lleol	10.1.3			(84,563)			(88,331)
Treth Cyngor Premiwm Ail Gartrefi				(2,878)			(5,516)
Eiddo Gwag Tymor Hir				(459)			(476)
Grantiau a Chyfraniadau Cyfalaf Cyffredinol	10.1.5			(57,105)			(30,887)
(Gwarged) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau				(64,658)			34,898
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall							
(Gwarged) / Diffyg ar ailbrisio asedau anghyfredol	12.12.2			(105,380)			(36,354)
Ailfesur Rhwymedigaethau ac Asedau Pensiynau	12.12.5			(58,052)			(315,655)
Rhwymedigaethau Gohiriedig ar Bapur				1,933			-
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall				(163,432)			(352,009)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				(228,090)			(317,511)

7.2.5 EITEMAU EITHRIADOL

Nid oedd unrhyw eitemau incwm neu wariant eithriadol yn 2022-23.

7.3 DATGANIAD SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD

Dengys y Datganiad hwn y symudiad yng ngwahanol gronfeydd y Cyngor yn ystod y flwyddyn, wedi'u dadansoddi rhwng cronfeydd defnyddiadwy (y rhai y mae modd eu defnyddio i dalu am wariant neu leihau trethiant lleol) a chronfeydd andefnyddiadwy eraill. Mae'r cronfeydd andefnyddiadwy'n cynnwys cronfeydd sy'n dal enillion heb eu sylweddu a cholledion sydd ond yn cael eu sylweddu pan gaiff asedau eu gwerthu a chronfeydd sy'n dal gwahaniaethau cyfrifyddu sydd eu hangen i gysoni'r gwahaniaethau rhwng cyflwyno adroddiadau ar sail gyfrifyddu IFRS a'r sail gyllido statudol.

Mae'r (Gwarged) / Diffyg ar ddarparu gwasanaethau'n adlewyrchu cost economaidd darparu gwasanaethau'r Cyngor, gyda rhagor o fanylion ohonynt yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar y dudalen ganlynol. Mae hyn yn wahanol i'r "sefyllfa drethiant" (symiau sy'n cael eu penderfynu wrth bennu treth y cyngor a rhenti tai) a godir ar Weddill y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Cyllid Tai sy'n cael ei ddangos gan y Cynnydd / Gostyngiad Clir cyn llinell y rosglwyddiadau i Gronfeydd a Glustnodwyd.



Gwirioneddol 2022-23	Gweddill Gweithredol y Gronfa Gyffredinol	Adnoddau'r Gronfa Gyffredinol a Glustnodwyd	Gweddill Gweithredol CRT	Adnoddau CRT a Glustnodwyd	Adnoddau Derbyniadau Cyfalaf a Grantiau	Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiaid	Cronfeydd Annefniddiadwy	Cyfanswm Cronfeydd
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Gweddill ar 31 Mawrth 2022	(8,000)	(76,577)	(752)	(13,686)	(13,292)	(112,307)	(508,961)	(621,268)
Addasiadau i'r Swm Agoriadol yn y Flwyddyn *	-	-	-	-	-	-	641	641
Gweddill ar 1 Ebrill 2022	(8,000)	(76,577)	(752)	(13,686)	(13,292)	(112,307)	(508,320)	(620,627)
(Gwarged) / Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	34,294	-	204	-	-	34,498	-	34,498
	-	-	-	-	-	-	(352,009)	(352,009)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gwelwch 7.2.4)	34,294	-	204	-	-	34,498	(352,009)	(317,511)
Addasiadau Rhwng Sail Gyfrifyddu a Sail Gyllido Dan Reoliad (gwelwch 11.1)	(34,703)	-	969	-	(964)	(34,698)	34,698	-
(Cynnydd) a Gostyngiad Clir cyn Trosglwyddo (i) / o Gronfeydd	1,145	-	1,173	-	(964)	(200)	(317,311)	(317,511)
Trosglwyddiadau (i) / o Gronfeydd	409	461	(1,173)	303	-	-	-	-
(Cynnydd) / Gostyngiad yn y Flwyddyn	-	461	-	303	(964)	(200)	(317,311)	(317,511)
Gweddill ar 31 Mawrth 2023 (gwelwch 11.2.1 & 11.2.2)	(8,000)	(76,116)	(752)	(13,383)	(14,256)	(112,507)	(825,631)	(938,138)

*Ailddatgan i gynnwys atebolwydd pensiwn GRhA / Partneriaeth (fel awdurdod cyflogi)

Gwirioneddol 2021-22	Gweddill Gweithredol y Gronfa Gyffredinol	Adnoddau'r Gronfa Gyffredinol a Glustnodwyd	Gweddill Gweithredol CRT	Adnoddau CRT a Glustnodwyd	Adnoddau Derbyniadau Cyfalaf a Grantiau	Cyfanswm Cronfeydd Defnyddiaid	Cronfeydd Annefnfyddiadwy	Cyfanswm Cronfeydd
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Gweddill ar 1 Ebrill 2021	(7,000)	(55,640)	(752)	(10,621)	(11,867)	(85,880)	(309,231)	(395,111)
(Gwarged) / Diffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	(26,157)	-	(38,501)	-	-	(64,658)	-	(64,658)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	-	-	-	-	-	-	(161,499)	(161,499)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (gwelwch 7.2.4)	(26,157)	-	(38,501)	-	-	(64,658)	(161,499)	(226,157)
Addasiadau Rhwng Sail Gyfrifyddu a Sail Gyllido Dan Reoliad (gwelwch 11.1)	5,888	-	33,754	-	(1,425)	38,217	(38,217)	-
(Cynnydd) a Gostyngiad Clir cyn Trosglwyddo (i) / o Gronfeydd	(20,269)	-	(4,747)	-	(1,425)	(26,441)	(199,716)	(226,157)
Trosglwyddiadau (i) / o Gronfeydd	19,269	(20,937)	4,747	(3,065)	-	14	(14)	-
(Cynnydd) / Gostyngiad yn y Flwyddyn	(1,000)	(20,937)	-	(3,065)	(1,425)	(26,427)	(199,730)	(226,157)
Gweddill ar 31 Mawrth 2022 (gwelwch 11.2.1 & 11.2.2)	(8,000)	(76,577)	(752)	(13,686)	(13,292)	(112,307)	(508,961)	(621,268)

7.4 Y FANTOLEN

Dengys y Datganiad hwn gwerth asedau a rhwymedigaethau cydnabyddedig y Cyngor ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r asedau clir (asedau llai rhwymedigaethau) yn cyfateb i'r canlynol:

- Cronfeydd defnyddiadwy sy'n cynnwys y gweddillion gweithredol a chronfeydd a glustnodwyd.
- Cronfeydd annefnfyddiadwy sy'n cynnwys cronfeydd yn dal enillion a cholledion heb eu sylweddau, lle byddai symiau'n dod ar gael i ddarparu gwasanaethau ond os caiff asedau eu gwerthu; a chronfeydd yn hwyluso'r addasiadau gofynnol rhwng y sail gyfrifyddu sy'n cael ei defnyddio wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon a'r sail gyllido statudol dan reoliad sy'n cael ei defnyddio i bennu treth y cyngor a rhenti tai.

Y Fantolen Fel Yr Oedd Ar 31 Mawrth	Nodyn	2021-22		2022-23	
		£000	£000	£000	£000
Asedau Anghyfredol:					
Eiddo, Cyfarpar ac Offer	12.1				
Eiddo Tai'r Cyngor	12.1.1.3	297,740		298,989	
Tir ac Adeiladau Eraill	12.1.1.3	488,922		511,185	
Isadeiledd	12.1.1.3	131,773		136,144	
Cerbydau / Cyfarpar / Offer	12.1.1.3	16,764		16,513	
Asedau Treftadaeth	12.1.1.6	847		1,118	
Asedau Cymunedol	12.1.1.3	527		557	
Asedau'n Cael eu Hadeiladu	12.1.1.3	38,735		58,762	
Asedau Dros Ben		2,713		2,134	
Asedau Sefydlog			978,021		1,025,402
Asedau Anniriaethol	12.1.3		100		105
Dyledwyr Hirdymor	12.5.1		4,700		5,110
Ased Cronfa Bensiynau			-		51,040
Cyfanswm Asedau Hirdymor			982,821		1,081,657
Asedau Cyfredol:					
Buddsoddiadau Byrdymor	12.4	25,027		25,201	
Rhestri Eiddo a Gwaith ar y Gweill	12.3	1,487		1,520	
Dyledwyr Byrdymor a Rhagdaliadau	12.5.1	80,146		89,418	
Arian a Chywerthoedd Arian	12.6	49,557		36,249	
Asedau Mewn Llaw i'w Gwerthu	12.7	-		-	
Cyfanswm Asedau Cyfredol			156,217		153,288
Cyfanswm Asedau			1,139,038		1,234,045
Rhwymedigaethau Cyfredol:					
Benthyca Byrdymor Arall	12.5.2	(2,241)		(13,210)	
Credydwyr Byrdymor	12.5.2	(52,145)		(58,402)	
Derbyniadau Grantiau Cyllid o Flaen Llaw	12.5.3	(3,277)		(1,855)	
Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o Flaen Llaw	12.5.3	(19,103)		(26,380)	
Darpariaethau	12.8.1	(2,418)		(2,667)	
Cyfanswm Rhwymedigaethau Cyfredol			(79,184)		(102,514)
Cyfanswm Asedau Llai Dyledion Cyfredol			1,059,854		1,131,531
Benthyca Hirdymor	12.9.1	(203,301)		(191,470)	
Rhwymedigaethau Gohiriedig	12.10	(1,371)		(1,923)	
Rhwymedigaeth Glir y Gronfa Bensiynau	12.12.5	(233,914)		-	
Cyfanswm Rhwymedigaethau Hirdymor			(438,586)		(193,393)
Asedau Clir			621,268		938,138
Cronfeydd Defnyddiadwy					
- Gweddill Gweithredol y Gronfa Gyffredinol	11.2.1		8,000		8,000
- Gweddill Gweithredol CRT	11.2.1		752		752
- Cronfeydd a Glustnodwyd a Derbyniadau Cyfalaf	11.2.1 & 11.2.2		103,555		103,755
Cronfeydd Annefnyddiadwy	12.12		508,961		825,631
Cyfanswm Cronfeydd			621,268		938,138



7.5 DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian y newidiadau mewn arian parod a chywerthoedd arian parod yn ystod cyfnod yr adroddiad, gan ddangos sut mae'r Cyngor yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chywerthoedd arian parod trwy ddsbarthu llifau arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi a chyllido.

Mae maint y llifau arian clir sy'n deillio o weithgareddau gweithredu clir yn ddangosydd allweddol o'r graddau y caiff gweithrediadau eu cyllido drwy drethiant ac incwm grant neu drwy dderbynwyr gwasanaethau a ddarparwyd gan yr Awdurdod.

Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli i ba raddau y deilliodd llifau arian o adnoddau y bwriadwyd iddynt gyfrannu at gyflenwi gwasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol.

Mae llifau arian sy'n deillio o weithgareddau cyllido'n ddefnyddiol ar gyfer rhagweld hawliadau ar lifau arian y dyfodol gan ddarparwyr cyfalaf i'r Cyngor.

Mae'r nodiadau ar y Llif Arian isod:

Symudiad Gweddillion Arian Parod	Fel yr oedd ar 31 Mawrth		Symudiad yn y Flwyddyn £000
	2022 £000	2023 £000	
Arian yn y Banc / (Dyledus)	-	-	-
Cywerth Arian Parod	48,756	36,694	(12,062)
Arian yn y Banc / Mewn Llaw	782	(578)	(1,360)
	49,538	36,116	(13,422)

Mae'r llifau arian ar gyfer gweithgareddau gweithredu'n cynnwys yr eitemau canlynol:	2021-22 £000	2022-23 £000
Llog a Dalwyd	9,731	9,434
Llog a Dderbyniwyd	(144)	(1,484)

Datganiad Llif Arian	2021-22		2022-23	
	£000	£000	£000	£000
Cysoni Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr â Llif Arian Cyllid Clir				
(Gwarged) / Diffyg Clir ar ddarparu gwasanaethau		(64,658)		34,498
Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg clir ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau heblaw arian				
Addasiad y Flwyddyn Cynt	-		-	
Dibrisiad	(25,907)		(31,193)	
Amhariad a ailbriso	23,754		(14,366)	
Addasiadau i'r gronfa benswn	(26,902)		(30,060)	
Addasiadau eraill i offerynnau ariannol heblaw arian	97		44	
Cyfraniadau at ddarpariaethau	28		(249)	
Swm cario o asedau anghyfredol a werthwyd	(833)		(693)	
Symudiadau mewn dyledwyr cyllid, credydwyd, stociau ac ati	(3,190)		2,818	
		(32,953)		(73,699)
Addasiad ar gyfer eitemau sydd yn y gwarged neu ddiffyg clir ar ddarparu gwasanaethau sy'n weithgareddau buddsoddi a chyllido				
Derbyniadau o werthu eiddo, peiriannau ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	1,489		906	
Grantiau Cyfalaf	57,105		30,887	
Premiwm a dalwyd ar adbrynu dyled	-	58,594	-	31,793
Llif Arian Clir o Weithgareddau Gweithredu	-	(39,017)	-	(7,408)
Gweithgareddau Buddsoddi				
Prynu eiddo, cyfarpar ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	70,078		61,120	
Prynu buddsoddiadau byrdymor a hirdymor	-		-	
Derbyniadau o werthu eiddo, cyfarpar ac offer, eiddo buddsoddi ac asedau anniriaethol	(1,489)		(906)	
Derbyniadau o fuddsoddiadau byrdymor a hirdymor	-		-	
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	(54,468)		(40,197)	
Llif Arian Clir o Weithgareddau Buddsoddi		9,120		20,017
Gweithgareddau Cyllido				
Derbyniadau arian o fenthycia byrdymor a hirdymor	(1,000)		(412)	
Taliadau arian parod ar gyfer lleihau'r rhwymedigaethau dyledus cysylltiedig â phrydlesi cyllidol a chontractau MCP ar y Fantolen	5,824		32	
Ad-daliadau benthyca byrdymor a hirdymor	1,692		1,194	
Llif arian clir o weithgareddau cyllido		6,516	-	814
(Cynnydd) / Gostyngiad Clir Mewn Arian Parod A Chywerthoedd Arian Parod		(23,381)		13,423
Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddechrau'r cyfnod hysbysu	(26,158)		(49,539)	
Arian parod a chywerthoedd arian parod ar ddiwedd y cyfnod hysbysu	49,539		36,116	
Cynnydd / (Gostyngiad) Mewn Arian Parod A Chywerthoedd Arian Parod		23,381		(13,423)



8.0 POLISI'AU CYFRIFYDDU

Cygnor Sir Penfro – Datganiad Cyfrifon Blynnyddol 2022-23



8.0 POLISIÂU CYFRIFYDDU

Adolygwyd y polisiâu cyfrifyddu sy'n cael eu defnyddio i baratoi'r Datganiadau Cyfrifyddu Craidd a'r Nodiadau Esboniadol a Datganiadau Ariannol Atodol sy'n dilyn trwy ddefnyddio Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2021-22.

8.1 EGWYDDORION CYFFREDINOL

Amcan y polisiâu cyfrifyddu a fabwysiadwyd fydd sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon yn rhoi darlun "cywir a theg" o sefyllfa ariannol y Cyngor.

Bydd y cyfrifon yn cael eu paratoi'n unol â'r Cod Ymarfer diweddaraf ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), (y Cod) a chadw at y Safonau ac Arferion Cyflwyno Adroddiadau Ariannol perthnasol, os na fydd yn dweud yn wahanol.

Bydd ffigurau'n cael eu cynnwys yn y Datganiadau Ariannol gan ddefnyddio'r confensiwn costau a bennwyd yn y safon gyfrifyddu briodol.

Bydd y polisiâu cyfrifyddu'n cael eu hadolygu yn ôl y gofyn o rai'r flwyddyn flaenorol i adlewyrchu newidiadau yng ngofyniad cyflwyno adroddiadau gydag unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu datgelu.

8.2 INCWM A GWARIANT

8.2.1 COSTAU A BUDDIANNAU CYFLOGEION

Bydd cyflogau'n cael eu codi ar gyfer y cyfnodau y maent yn berthnasol iddynt ac, os bydd angen, bydd amcangyfrifon o groniadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio cyfnodau cyflog blaenorol fel sail. Bydd addasiad yn cael ei wneud yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i gyfrif hawl absenoldeb cronedig.

8.2.2 CYFLENWADAU A GWASANAETHAU AC ATI

Mae'r Cyngor yn gweithredu trefn o groniadau a thaliadau cyfnewidiedig. Bydd credydwyd yn cael eu cronni erbyn diwedd cyfnod penodedig o'r flwyddyn ddilynol a thrwy gynnwys amcangyfrifon ar gyfer eitemau arwyddocaol sy'n dal heb eu talu bryd hynny ar sail dyfynbrisiau neu gostau'r gorffennol. Mae eithriad i'r egwyddor hon yn berthnasol i drydan a thaliadau cyfnodol tebyg sy'n cael eu codi ar ddyddiad darlleniad mesurydd yn hytrach na chael eu dosrannu rhwng blynyddoedd ariannol. Bydd y polisi hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson bob blwyddyn ac, felly, nid yw'n cael effaith sylweddol ar gyfrifon unrhyw flwyddyn.

8.2.3 GWASANAETHAU CYMORTH

Yn gyffredinol bydd y seiliau canlynol yn cael eu defnyddio i godi ar gyfrifon cyllid gwasanaethau:

- Bydd costau gwasanaethau cymorth yn cael eu codi ar wasanaethau ar sail amcangyfrif o'r amser a dreuliwyd neu'r sail fwyaf priodol.
- Bydd costau cysylltiedig â swyddfeydd yn cael eu dyrannu ar sail meddiannu.
- Bydd costau eraill yn cael eu dyrannu ar sail gwariant cyfredol crynswth os nad oes unrhyw sail fwy gwrthrychol ar gael.
- Bydd y dyraniad costau i wasanaethau'n cael ei adolygu'n unig pan fu ad-drefnu sylweddol ar ddarparu gwasanaethau.



8.2.4 ARCHEBIANNAU AC ARDOLLAU

Bydd holl archebiannau ac ardollau'n ffurfio rhan o Warged / Diffyg y Cyngor ar ddarparu Gwasanaethau ac yn cael eu hysbysu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

8.2.5 INCWM

Bydd holl incwm sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael ei gyfrif amdano ar y dyddiad penodedig a'i gydnabod yn ôl gwerth teg. Bydd incwm Treth y Cyngor yn cael ei ddwyn i gyfrif ar sail cofnodion yn y Rhestr Brisio.

Cyfran yr Awdurdod o Gronfa Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) sy'n cael ei hysbysu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r hyn sy'n cael ei hysbysu gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd NNDR sy'n cael ei gasglu ar ran Llywodraeth Cymru'n ffurfio rhan o incwm y Cyngor a dyledwyr a chredydwyr cysylltiedig ar y Fantolen. Caiff holl gofnodion cysylltiedig eu cyfuno i gyfrif cronfa NNDR.

8.2.6 LLOG TALADWY

Bydd llog ar fenthycia'n cael ei gronni a chyfrif amdano yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn briodol pan fo'r effaith economaidd yn cael ei hadlewyrchu yn y cyfrifon heblaw i'r graddau y mae'n cael ei gyfalafu dan bolisi cyfrifyddu 8.16.

Bydd unrhyw addasiad cyfradd log effeithiol sy'n cael ei wneud o ran benthyciadau'r farchnad (gwelwch bolisi cyfrifyddu 8.10.2) yn cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond, heb fod yn gost briodol ar Gronfa'r Cyngor, bydd yn cael ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol

8.2.7 LLOG DERBYNIADWY

Bydd yr egwyddorion canlynol yn berthnasol i log derbyniadwy:

Bydd llog a dderbyniwyd ar arian dros ben a fuddsoddwyd yn allanol yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ac oddi yno bydd arian yn cael ei neilltuo i'r canolynol:

- Y Cyfrif Cyllid Tai yn unol â'r gyfradd a bennwyd yn y rheoliadau
- Gweddillion Cronfa Ddirprwyedig Ysgolion yn unol â Chynllun y Cyngor ar gyfer Rheoli Ysgolion yn Leol
- Adnoddau wrth gefn a glustnodwyd os yw'n cael ei dybio'n briodol.

8.2.8 DYLEDWYR CYFFREDINOL

Bydd dyledwyr yn cael eu cydnabod ar y Fantolen a'u mesur yn ôl gwerth teg y swm derbyniadwy pan fo derbyniadau wedi cael eu cydnabod. Ym mwyafrif yr achosion, gwerth teg fydd y gwerth ariannol ond, yn achos dyledwyr hirdymor, bydd y gwerth yn cael ei ddisgowntio yn ôl y gyfradd briodol i adlewyrchu gwerth teg. Bydd yr addasiad yn cael ei wneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond, heb fod yn gost briodol ar Gronfa'r Cyngor, bydd yn cael ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol.

Lle mae referniw wedi'i gydnabod ond nad yw arian wedi'i dderbyn, cofnodir dyledwr am y swm perthnasol yn y Fantolen. Lle na ellir setlo dyledion, ysgrifennir cydbwysedd dyledwyr a chodir tâl am referniw ar gyfer yr incwm na allai gael ei gasglu.

Ni fydd incwm grant y cytunwyd arno mewn egwyddor yn cael ei gronni nes bod derbynny y grant wedi'i gymeradwyo.



8.2.9 CREDYDWYR CYFFREDINOL

Bydd credydwy'r yn cael eu cydnabod ar y Fantolen a'u mesur yn ôl gwerth teg y swm taladwy pan gafodd nwyddau eu cyflenwi neu wasanaethau eu rhoi. Ym mwyafrif yr achosion, gwerth teg fydd y gwerth ariannol ond, yn achos credydwy'r hirdymor, bydd y gwerth yn cael ei ddisgowntio yn ôl y gyfradd briodol i adlewyrchu gwerth teg. Bydd yr addasiad yn cael ei wneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond, heb fod yn gost briodol ar Gronfa'r Cyngor, bydd yn cael ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol.

8.3 GWEITHREDIADAU CAFFAELEDIG A DARFODEDIG

Bydd incwm a gwariant mewn cysylltiad â gweithrediadau caffaeledig a darfodedig perthnasol yn cael eu dangos ar wahân ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw rwymedigaethau'n cael eu henwi mewn nodiadau ar y Fantolen.

8.4 ARIAN PAROD A CHYWERTHOEDD ARIAN PAROD

Yn cael eu cynrychioli gan gronfeydd sy'n cael eu dal ar gyfer ymrwymadau arian parod byrdymor yn hytrach na'u buddsoddi at ddibenion eraill, ac sy'n hawdd eu newid i symiau hysbys o arian parod. Bydd faint o arian parod a chywertoedd arian parod sy'n cael eu diffinio felly'n cael eu pennu trwy gyfeirio at y rhagolygon llif arian dyddiol.

8.5 BUSNES HYFYW, EITHRIADOL, EITEMAU ANGHYFFREDIN, ADDASIADAU'R FLWYDDYN CYNT

Bydd y Datganiadau Ariannol yn cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw oni bai fod bwriad gan y llywodraeth na fydd y gwasanaethau'n cael eu darparu mwyach.

Eitemau anghyffredin - Ni fydd unrhyw eitemau incwm neu wariant yn cael eu trin fel anghyffredin. Felly, bydd holl eitemau'n cael lle ar un o linellau penodedig y Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau neu'r Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall.

Eitemau eithriadol – pan fo eitemau incwm a gwariant yn berthnasol, bydd eu natur a'u maint yn cael ei ddatgelu ar wahân, naill ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y nodiadau ar y cyfrifon.

Oni bai y cymeradwywyd fel arall gan y Cod, bydd addasiadau cyfnod blaenorol perthnasol yn peri ailddatgan ffigurau'r flwyddyn cynt a datgelu'r effaith.

8.6 DIGWYDDIADAU AR ÔL CYFNOD YR ADRODDIAD

Os yw'n berthnasol ar ddyddiad y Fantolen, bydd digwyddiadau perthnasol ar ôl diwedd cyfnod yr adroddiad yn newid y Datganiad Cyfrifon. Bydd digwyddiadau eraill yn cael eu datgelu gydag amcangyfrif o'r effaith ariannol debygol. O'i newid ar ôl ei gyhoeddi cyn cwblhau archwiliad, bydd y swyddog ariannol cyfrifol yn ailardystio bod y Datganiad Cyfrifon diwygiedig yn disodli'r un a gyhoeddwyd o'r blaen. Bydd perthnasedd yn cael ei ddiffinio fel y swm a amcangyfrifwyd gan Archwilio Cymru yn unrhyw flwyddyn, sef 1% o wariant crynswth ac eitemau sy'n cael eu hystyried o natur sensitif.

8.7 COSTAU AR GYLLID AM ASEDAU ANGHYFREDOL

8.7.1 ENILLION WRTH AILBRISIO

At ddibenion cyfrifo enillion a cholledion, y gost hanesyddol fydd gwerth presennol asedau unigol ar 31ain Mawrth 2007. Ym mwyafrif yr achosion bydd enillion wrth ailbrisio'n cael eu credydu i'r Gronfa Ailbrisio heblaw pan fo amhariad blaenorol wedi cael ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dan yr amgylchiadau hyn bydd y cynnydd yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'i gymhwyso i weddill y golled gysylltiedig a gofnodwyd yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Bydd unrhyw gynnydd sy'n weddill heb ei gymhwyso'n cael ei gredydu i'r Gronfa Ailbrisio.

8.7.2 COLLEDION AILBRISIO AC AMHARIAD

Caiff asedau eu hasesu bob blwyddyn am arwyddion o amhariad ac, os oes arwyddion a'r gwahaniaeth mewn gwerth cario'n berthnasol, caiff colled amhariad ei chydabod (yn unol â'r paragraff isod).

Caiff colledion sy'n deillio o ailbrisiadau ac amhariadau nad oes modd eu llyncu gan enillion ailbrisio cronedig eu codi ar wasanaethau. Heb fod yn gost briodol ar Gronfa'r Cyngor bydd hyn yn cael ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

8.7.3 DIBRISIAD

Ac eithrio Eiddo Buddsoddi ac Asedau Treftadaeth sydd â bywydau amhenodol, ac Asedau'n Cael eu Hadeiladu nad ydynt mewn defnydd gweithredol, bydd dibrisiad ar holl asedau anghyfredol gyda bywyd defnyddiol cyfyngedig a, phan fo hynny'n berthnasol, bydd cydrannau ar wahân o'r ased yn cael eu nodi at ddibenion dibrisiad.

Bydd gwerth disgowntiedig clir Tai'r Cyngor yn cael ei ddosrannu rhwng tir ac adeiladau cyn cyfrifo dibrisiad.

Bydd y dull llinell syth yn cael ei ddefnyddio i amcangyfrif dibrisiad sydd i'w godi o'r dyddiad pan ddaw'r ased ar gael i'r gwasanaeth priodol i'w ddefnyddio yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Heb fod yn gost briodol ar Gronfa'r Cyngor bydd hyn yn cael ei wyrdroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Mae enillion ailbrisio hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng dibrisiant gwerth cyfredol a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi bod yn daladwy yn seiliedig ar drosglwyddo eu cost hanesyddol bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisio i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

8.8 BUDDIANNAU CYFLOGEION

8.8.1 BUDDIANNAU YN YSTOD CYFLOGAETH

Budd-daliadau gweithwyr tymor byr yw'r rhai sydd i fod i gael eu setlo o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys budd-daliadau fel cyflogau a chyflogau, gwyliau blyneddol â thâl, absenoldeb salwch â thâl a bonysau ar gyfer gweithwyr presennol. Mae'r rhain yn cael eu cydnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae gweithwyr yn rhoi gwasanaeth i'r Cyngor. Gwneir cronriad am gost yr hawl i wyliau a enillwyd gan gyflogeion ond ni chaiff ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ariannol y gall gweithwyr ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf. Codir tâl ar y cronriad i'r llinell Cost Gwasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ond yna caiff



ei wrthdroi trwy'r Datganiad Symud mewn Wrth Gefn fel y codir tâl ar fuddion gwyliau i referniw yn y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd.

8.8.2 BUDDIANNAU TERFYNIAD

Mae buddion terfynu yn symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan y Cyngor i derfynu cyflogaeth Swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu benderfyniad Swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol ac fe'u codir ar sail cronïadau i'r llinell Cost Gwasanaeth berthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, pan fo'r Cyngor yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth Swyddog neu grŵp o Swyddogion neu wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol. Pan fo buddion terfynu yn cynnwys gwella pensiynau, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i falans Cronfa y Cyngor gael ei godi o'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae'n ofynnol i briodolddau i'r Gronfa Bensiwn ac oddi yno ddileu'r debydau tybiedig a'r credydau ar gyfer buddion terfynu gwella pensiwn a rhoi debydau yn eu lle am yr arian a dalwyd i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau o'r fath sy'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

8.8.3 COST PENSIYNAU

8.8.3.1 CRONFA BENSIYNAU DYFED

Mae gweithwyr y Cyngor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn gwahanol. Roedd y ddau gynllun yn darparu buddion wedi'u diffinio i aelodau (cyfansymiau ymddeol a phensiynau), a enillwyd wrth i weithwyr weithio i'r Cyngor. Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Bensiynau Athrawon ar ran yr Adran Addysg (DfE). Mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun hwn yn golygu na ellir adnabod rhwymedigaethau ar gyfer budd-daliadau yn benodol i'r Cyngor fel arfer. Felly, cyfrifir am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio ac ni chydabyddir unrhyw atebolrwydd am dalu budd-daliadau yn y Fantolen yn y dyfodol. Mae'r llinell Gwasanaethau Addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn gyfrifol am gyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i Bensiynau Athrawon yn y flwyddyn. Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - mae gan weithwyr eraill hawl i fod yn aelodau o Gronfa Bensiwn Dyfed. Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei gyfrif fel cynllun buddion wedi'u diffinio:

- Mae rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn y gellir eu priodoli i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y fantolen ar sail actiwaraid gan ddefnyddio'r dull uned a ragwelir h.y. asesiad o'r taliadau yn y dyfodol a weir mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yma gan gyflogaeth, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant gweithwyr, a rhagamcanion enillion a ragwelir ar gyfer gweithwyr presennol.
- Mae rhwymedigaethau yn cael eu disgowntio i'w gwerth am brisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt.
- Mae asedau'r gronfa bensiwn y gellir eu priodoli i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y fantolen am eu gwerth teg:
 - gwarannau a ddyfynnir - pris cynnig cyfredol
 - Gwarantau heb eu dyfynnu – amcangyfrif proffesiynol
 - Eiddo – gwerth y farchnad
- Mae'r newid yn yr atebolrwydd pensiynau net yn cael ei ddadansoddi i'r cydrannau canlynol:
 - Cost bresennol y gwasanaeth – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – a ddyrannwyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau y bu'r gweithwyr yn gweithio ar eu cyfer
 - Cost gwasanaeth yn y gorffennol – y cynnydd mewn rhwymedigaethau o ganlyniad i ddiwygiad neu gwtogi cynllun y mae ei effaith yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd yn y blynyddoedd cynharach – wedi'i ddebydu i'r Gwasanaethau Canolog yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr
- Llog net ar yr atebolrwydd budd-dal diffiniedig net (ased), h.y. cost llog net i'r Cyngor – y newid yn ystod y cyfnod yn yr atebolrwydd budd-dal diffiniedig net (ased) sy'n deillio o hynt



yr amser a godir i linell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr – cyfrifir hyn drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i fesur y rhwymedigaeth buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod i'r Rhwymedigaeth Budd-dal Diffiniedig Net (ASED) ar ddechrau'r cyfnod – gan ystyried unrhyw newidiadau yn yr Atebolrwydd Budd-dal Diffiniedig net (ased) yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd-daliadau.

- Mesuriadau sy'n cynnwys:
 - Y ffurflen ar asedau'r cynllun – ac eithrio'r symiau sydd wedi'u cynnwys yn y budd net ar yr atebolrwydd budd-dal diffiniedig net (ased) – a godir i'r Gronfa Bensiwn ac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Eraill
 - Anillion a cholledion actiwaraid – newidiadau yn yr atebolrwydd pensiynau net sy'n codi oherwydd nad yw digwyddiadau wedi cyd-daro â rhagdybiaethau a wnaed yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu oherwydd bod yr actiwarïau wedi diweddarau eu rhagdybiaethau – a godir i'r gronfa Pensiynau ac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Eraill:
- Cyfraniadau i'r gronfa bensiwn – arian parod a delir fel cyfraniad cyflogwr i'r gronfa bensiwn wrth setlo rhwymedigaethau; Nid yw'n cael ei gyfrif fel cost.
- Mewn perthynas â budd-daliadau ymddeol, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i falans Cronfa y Cyngor gael ei godi o'r swm sy'n daladwy gan y Cyngor i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiynwyr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifir yn unol â'r safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad Symud mewn Cronfeydd Wrth Gefn, mae hyn yn golygu bod trosglwyddiadau i'r Gronfa Bensiwn ac oddi yno i gael gwared ar y debydau tybiedig a'r credydau ar gyfer buddion ymddeol a rhoi Debydau yn eu lle am yr arian a delir i'r gronfa bensiwn a phensiynwyr am unrhyw symiau sy'n daladwy i'r gronfa ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi ar y Gronfa Bensiynau felly'n mesur yr effaith fuddiol y mae'n ofynnol i Gronfa y Cyngor roi cyfrif am fuddion ymddeol ar sail llif arian parod yn hytrach nag fel buddion a enillir gan weithwyr.
- Mae gan y Cyngor hefyd bwerau cyfyngedig i ddyfarnu buddion ymddeol yn ôl disgrisiwn os bydd ymddeoliadau cynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau yr amcangyfrifir eu bod yn codi o ganlyniad i ddyfarniad i unrhyw aelod o staff (gan gynnwys athrawon) yn cael eu cronni ym flwyddyn y penderfyniad i wneud y dyfarniad ac yn cael cyfrif am ddefnyddio'r un polisïau ag sy'n berthnasol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

8.9 STOCIAU A GWAITH AR Y GWEILL

Bydd stociau yn storfeydd y Cyngor yn cael eu prisiau fel yr isaf o gost a gwerth gwiredadwy net.

Bydd gwaith ar y gweill, gyda'r Cyngor fel contractwr, yn cael ei brisiau yn ôl gwerth teg swm y contract sy'n dderbyniadwy.

8.10 FINANCIAL INSTRUMENTS

Dosbarthiad Offerynnau Ariannol

Mabwysiadodd yr Awdurdod Offerynnau Ariannol IFRS 9 o 1 Ebrill 2018 ymlaen. Roedd 3 newid allweddol:

- **Ail-fesur benthyciadau wedi'u haddasu**

Mae'r Cyngor yn amorteiddio cost premiwm a gostyngiadau sy'n gysylltiedig ag aildrefnu dyledion gan ddefnyddio'r diystyru statudol gydag unrhyw symiau heb eu hamorteiddio yn cael eu dangos yn y cyfrif diystyru statudol (FIAA). Adolygwyd y driniaeth hon fel rhan o fabwysiadu IFRS 9. Mae'r Cyngor wedi defnyddio triniaeth gyfrifo briodol ac o ganlyniad nid oes angen newid triniaeth wrth drosglwyddo i Offerynnau Ariannol IFRS 9.

- **Amhariad ar Asedau Ariannol**



Cyfrifir colledion amhariad i adlewyrchu'r disgwyliad efallai na fydd llif arian yn digwydd oherwydd y gallai'r benthyciwr fethu â chydymffurfio â'i rwymedigaethau. Cydnabyddir hyn yn y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaeth fel amhariad ar enillion neu golled.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu ymagwedd syml tuag at amhariad yn unol â'r Cod ac mae'n mesur y golled ar gyfer Dyledwyr Masnach yn ôl swm sy'n hafal i golled oes ddisgwyliedig gan ddefnyddio darpariaeth yn seiliedig ar gyfuniad o oed dyled a chyfraddau casglu hanesyddol. Mae'r dull hwn yn sicrhau cydnabyddiaeth gynnar o amhariad ar yr ased ariannol.

Mae benthyciadau i Drydydd Parti wedi'u hadolygu'n ofalus o dan y model colled credyd disgwyliedig newydd i sicrhau bod unrhyw golled credyd yn cael ei gydnabod yn gynnar. Pan yn ystyried gwybodaeth hanesyddol, gyfredol a blaengar nid oes gofyniad i gydnabod unrhyw golled credyd.

Ni fu unrhyw newid o ganlyniad i weithredu IFRS 9.

• Dosbarthiad Offerynnau Ariannol

Mae dosbarthiad Asedau Ariannol bellach yn cael eu pennu gan eu nodweddion a'r model busnes y cawsant eu caffael oddi tanynt. Mae yna 3 model:

a) Cost Amorteiddiedig

Mae'r ased ariannol yn cael ei ddal mewn model busnes a'i nod yw dal asedau ariannol er mwyn "casglu llif arian cytundebol". Taliadau o brif [gyfrifon] a llog yn unig yw llif arian.

b) Gwerth Teg Trwy Incwm Cynhwysfawr Arall

Mae'r ased ariannol yn cael ei ddal o fewn model busnes y mae ei amcan yn cael ei gyflawni trwy "gasglu llif arian cytundebol a gwerthu asedau ariannol"

c) Gwerth Teg Trwy Elw a Cholled

Pob cyfuniad arall o fodel busnes a llif arian cytundebol.

Offerynnau Ariannol	Cost Amorteiddiedig	Gwerth Teg (CI)	Gwerth Teg (P&L)
Asedau Ariannol			
Buddsoddiadau Tymor Byr	✓		
Galwad Banc / Cyfwerth ag Arian Parod	✓		
Dyledwyr			✓
Rhwymedigaethau Ariannol			
Benthycia Tymor Byr	✓		
Benthycia Hirdymor	✓		

Ar ôl yr adolygiad, nid oes angen newid triniaeth wrth drosglwyddo i IFRS 9.

8.10.1 YMRWYMIADAU ARIANNOL

8.10.1.1 CYDNABOD A MESUR

Bydd benthycia'n cael ei gydnabod pan gaiff yr arian parod ei dderbyn oddi wrth y rhoddwr benthyc a bydd yn cael ei fesur i ddechrau yn ôl gwerth teg, sef amcangyfrif o gost adbrynu'r ddyled.

Yn gyffredinol, bydd portffolio dyledion y Cyngor yn cael ei ddosbarthu a'i gofnodi ar y Fantolen fel ymrwymiad ariannol yn cael ei ddal am y gost wedi'i hamorteiddio. Yn ymarferol mae hyn yn golygu y bydd y ddyled a gododd y Cyngor o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn cael ei chofnodi fel y prifswm ad-daladwy ynghyd â'r llog cronedig ar ddyddiad y Fantolen. O ran benthyciadau'r farchnad bydd y gwerth wedi'i amorteiddio'n cael ei amcangyfrif trwy addasu y gwerth aeddfedu i gyfrif llog cronedig ynghyd ag addasiad (addasiad cyfradd log effeithiol) i lyfnu effaith unrhyw



daliadau llog neu bremiwm grisiog sy'n ddyledus dros fywyd y benthyciadau. Bydd yr addasiad yn cael ei wneud drwy'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a, heb fod wedi'i gyllido o adnoddau cyllid, bydd y swm yn cael ei wyrddroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol.

Yn achos benthyciadau Opsiynau Rhoddwyr a Chymerwyr Benthg (LOBO) bydd yn cael ei gymryd yn ganiataol y bydd y benthyciad yn parhau am eu cyfnod cytundebol llawn wrth gyfrifo'r addasiad, oni bai y cafwyd rhybudd gan y rhoddwr benthg y bydd y benthyciad yn cael ei alw'n ôl yn gynharach.

Bydd y portffolio dyledion, wedi'i fesur yn ôl gwerth teg, yn cael ei hysbysu mewn nodyn ar y Fantolen yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn.

Bydd unrhyw fenthyciadau di-log neu fenthyciadau a gymrwyd islaw cyfraddau'r farchnad yn cael eu hysbysu yn unol â pholisi cyfrifyddu 8.10.2.

8.10.1.2 DATGYDNABOD, ENILLION A CHOLLEDION ADBRYNU CYNNAR

Pan gaiff benthyciad ei adbrynu a/neu ei ddisodli / addasu'n sylweddol, bydd yr ymrwymiad yn cael ei drin fel pe bai wedi'i ddiddymu a'r benthyciad yn cael ei ddileu o'r Fantolen. Bydd unrhyw enillion a cholledion wrth ad-dalu neu dalu benthyciadau'n ôl yn gynnwys yn cael eu credydu a'u debydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ym flwyddyn yr adbrynu / setliad.

Fodd bynnag, mae rheoliadau'n caniatáu gwasgaru'r effaith ar Weddill y Gronfa Gyffredinol dros flynyddoedd a ddaw. Bydd y cynnydd / golled yn cael ei wasgaru dros y cyfnodau a bennwyd yn y rheoliadau. Bydd cysoni rhwng symiau a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r taliad clir sy'n ofynnol yn ôl rheoliad yn erbyn Gweddill y Gronfa Gyffredinol yn cael ei reoli trwy drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

Pan fo ad-daliad wedi digwydd fel rhan o ad-drefnu'r portffolio benthyciadau sy'n golygu newid neu gyfnod offerynnau presennol nad yw'n sylweddol, bydd y premiwm neu ostyngiad yn cael ei dynnu o neu ychwanegu at gost y benthyciad newydd neu addasedig wedi'i hamorteiddio a bydd y trosglwyddiad i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei wasgaru dros fywyd y benthyciad a newidiwyd trwy addasiad i'r gyfradd log effeithiol.

Diffiniad wedi'i addasu'n sylweddol fydd pan fo gwerth presennol llif arian clir (gan gynnwys premïymau a gostyngiadau) y trefniant newydd o leiaf 10% yn wahanol i werth presennol disgowntiedig gweddill y llifau arian dan y trefniant gwreiddiol.

Bydd addasiadau priodol yn deillio o adennill dyledion yn cael eu gwneud i Ddatganiadau'r Cyfrif Cyllid Tai yn unol â'r penderfyniad statudol perthnasol.

8.10.2 BENTHYCIADAU MEDDAL

8.10.2.1 BENTHYCIADAU

Pan fo'r Cyngor yn rhoi benthyciadau sy'n ddi-log neu islaw cyfraddau'r farchnad, bydd y benthyciad yn cael ei gofnodi i ddechrau yn ôl gwerth teg yn y cyfrifon trwy ddisgowntio derbyniadau arian parod y dyfodol yn ôl cyfradd gyfredol y farchnad a chodi'r gwahaniaeth rhwng yr arian a fenthycwyd a'i werth yn y farchnad (colli llog) ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Bydd llog y farchnad sy'n ddyledus ymhob blwyddyn yn cael ei gyfrifo ar y gweddill disgowntiedig gan ddefnyddio cyfradd y farchnad a'i gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Bydd cynnydd yn y llog a llog y farchnad, neu'r gwahaniaeth rhwng llog y farchnad a chytundebol, heb fod yn gostau priodol ar Gronfa'r Cyngor, yn cael eu gwyrddroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol.



8.10.2.2 CYMRYD BENTHYG

Pan fo'r Cyngor yn cymryd benthyg arian yn ddi-log neu islaw cyfraddau'r farchnad, bydd y benthygiad yn cael ei gofnodi i ddechrau yn ôl gwerth teg yn y cyfrifon trwy ddisgowntio'r ad-daliadau arian parod yn y dyfodol yn ôl cyfradd gyfredol y farchnad a chredydu'r gwahaniaeth rhwng y benthygiad a'i werth yn y farchnad (ennill llog) i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Bydd llog y farchnad sy'n ddyledus ymhob blwyddyn yn cael ei gyfrifo ar y gweddill disgowntiedig gan ddefnyddio cyfradd y farchnad a'i godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Bydd y disgownt a llog y farchnad, neu'r gwahaniaeth rhwng llog y farchnad a chytundebol, heb fod yn gostau priodol ar Gronfa'r Cyngor, yn cael eu gwyrddroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol.

8.10.3 BUDDSODDIADAU

8.10.3.1 CYDNABOD A MESUR

Bydd buddsoddiad yn cael ei gydnabod pan fo gan bwy bynnag sydd i dderbyn yr arian parod hawl gytundebol i'r ased a bydd yn cael ei fesur i ddechrau yn ôl gwerth teg, sef amcangyfrif o'r swm derbyniadwy pe bai'r buddsoddiad yn cael ei sylweddu. Bydd y portffolio buddsoddiadau, yn cael ei fesur yn ôl gwerth teg, yn cael ei hysbysu mewn nodyn ar y Fantolen yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn.

Yn gyffredinol bydd portffolio buddsoddiadau'r Cyngor yn cael ei ddosbarthu fel benthygiadau a symiau sy'n dderbyniadwy yn ôl eu cost wedi'i hamorteiddio. Yn ymarferol mae hyn yn golygu y bydd y buddsoddiadau sydd gan y Cyngor gydag eraill cymeradwy yn cael eu hysbysu yn ôl gwerth wedi'i amorteiddio trwy addasu'r prifsymiau a fuddsoddiwyd i ganiatáu cyfartalu'r ddychweleb dros fywyd y buddsoddiad. Bydd yr addasiad yn cael ei wneud drwy'r Datganiad Symudiad Cronfeydd i'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol. Bydd unrhyw fuddsoddiadau ar gael i'w gwerthu'n cael eu hysbysu yn ôl gwerth teg yn unol ag IFRS13.

8.10.3.2 DATGYDNABOD, ENILLION A CHOLLEDION

Pan fo buddsoddiad yn cael ei sylweddu bydd yr ased yn cael ei ddileu o'r Fantolen. Nid yw'r mathau o fuddsoddiad sy'n gymeradwy i'r Cyngor yn caniatáu unrhyw gynnydd neu golled ar y

farchnad. Os digwydd colled yn deillio o fethiant gwrthbarti, bydd darpariaeth yn cael ei gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae rheoliad yn caniatáu.

8.10.4 SAIL TALIADAU AR GYFER AD-DALU DYLEDION

Bydd y lleiafswm (MRP) sy'n cael ei farnu'n ddoeth yn cael ei godi ar y Datganiadau Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer Cronfa'r Cyngor a'r CRT yn unol â chanllawiau statudol ac ar sail y Polisi Blyneddol Isafswm Darpariaeth Refeniw i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

Blwyddyn	MRP Gwirfoddol Ychwanegol £'000	MRP Gwirfoddol Ychwanegol Cynyddus £'000
2022-23	-	1,633



8.10.5 CONTRACTAU GWARANTU BENTHYCIADAU ARIANNOL

8.10.5.1 CYDNABOD

Caiff gwarantau'n ymwneud â gallu parti arall i ad-dalu dyled eu cydnabod ar werth teg trwy godi tâl ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a sefydlu Cronfa Rhwymedigaeth Ariannol Wrth Gefn.

8.10.5.2 MESUR

Os na chaiff premiwm ei godi ar bwy bynnag sy'n ceisio'r warant, bydd y swm yn cael ei amcangyfrif trwy ystyried tebygolrwydd galw ar y warant. Caiff unrhyw swm sy'n cael ei warantu ei ailasesu a/neu ei amorteiddio bob blwyddyn i adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid.

8.11 DYLEDION GOHIRIEDIG

Bydd dyledion sydd, trwy drefniant, yn daladwy rywbyrd yn y dyfodol trwy swm blynyddol dros gyfnod yn cael eu dangos ar wahân a'u dosbarthu fel dyledion hirdymor ar y Fantolen.

8.12 TROSI ARIAN TRAMOR

Pan fo'r Awdurdod wedi cyfranogi mewn trafodiad a nodwyd mewn arian tramor, caiff y trafodiad ei drosi i sterling ar y gyfradd gyfnewid sy'n berthnasol ar y dyddiad yr oedd y trafodiad yn effeithiol. Pan fo symiau mewn arian tramor yn aros yn daladwy ar ddiwedd y flwyddyn, cânt eu haildrosi ar y gyfradd gyfnewid ar 31 Mawrth. Caiff enillion neu golledion canlyniadol eu cydnabod ar linell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

8.13 GRANTIAU'R LLYWODRAETH A CHYFRANIADAU ERAILL

8.13.1 CYFFREDINOL

Bydd grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau eraill yn cael eu cyfrif amdanynt ar sail croniadau, ar ôl cydymffurfio ag amodau eu derbyn a phan fo sicrwydd rhesymol y bydd y grant neu gyfraniad yn cael ei dderbyn.

8.13.2 GRANTIAU A CHYFRANIADAU CYLLID

Pan fo grant neu gyfraniad cyllid wedi'i dderbyn, ac amodau'n disgwyl sylw ar ddyddiad y Fantolen, bydd y grant neu gyfraniad yn cael ei gydnabod fel derbyniad o flaen llaw. Pan fo amodau'r grant yn cael eu cyflawni bydd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel incwm a'i gyfateb yn y cyfrifon cyllid gwasanaethau gyda'r gwariant y mae'n berthnasol iddo. Bydd grantiau a chyfraniadau cyffredinol, e.e. Grant Cynnal Cyllid, ailddosbarthiad NNDR yn cael eu datgelu fel un neu fwy o eitemau ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

8.13.3 GRANTIAU A CHYFRANIADAU AT DDIBENION CYFALAFOL

Pan fo grant neu gyfraniad cyfalaf wedi'i dderbyn, ac amodau'n disgwyl sylw ar ddyddiad y Fantolen, bydd y grant neu gyfraniad yn cael ei gydnabod fel rhan o'r Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o Flaen Llaw. Pan fo'r amodau wedi cael eu cyflawni, bydd y grant neu gyfraniad yn cael ei drosglwyddo o'r Derbyniadau Grantiau Cyfalaf o Flaen Llaw a'i gydnabod fel incwm yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel incwm grantiau amhenodol.

Nid yw grantiau a chyfraniadau sy'n cyllido gwariant cyfalaf ac Asedau Rhoddedig a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn incwm priodol i'r Gronfa Gyffredinol neu'r Cyfrif Cyllid Tai a bydd cyfrif am y symiau hyn fel a ganlyn:

- Os gwnaed y gwariant sydd i'w gyllido o'r grant neu gyfraniad hwnnw erbyn dyddiad y Fantolen, bydd y grant neu gyfraniad yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol (neu'r Cyfrif Cyllid Tai) i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf, gan adlewyrchu cymhwyso adnoddau cyfalaf i gyllido gwariant. Bydd y trosglwyddiad hwn yn cael ei hysbysu yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.
- Pan na wnaed y gwariant sydd i'w gyllido o'r grant neu gyfraniad hwnnw erbyn dyddiad y Fantolen, bydd y grant neu gyfraniad yn cael ei drosglwyddo i'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig (yn adran cronfeydd defnyddiadwy'r Fantolen), gan adlewyrchu ei statws fel adnodd cyfalafol ar gael i gyllido gwariant. Bydd y trosglwyddiad hwn yn cael ei hysbysu yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd. Rywbryd yn y dyfodol, pan fydd y gwariant yn digwydd, bydd y grant neu gyfraniad (neu ran ohono) yn cael ei drosglwyddo o'r Cyfrif Grantiau Cyfalaf Anghymwysedig i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf, gan adlewyrchu cymhwyso adnoddau cyfalaf i gyllido gwariant. Bydd y trosglwyddiad hwn yn cael ei hysbysu yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

8.13.4 AD-DALU

Bydd unrhyw ad-daliad yn cael ei gymhwyso'n gyntaf i unrhyw dderbyniad neu gyfraniad a gafwyd o flaen llaw. I'r graddau y mae'r ad-daliad yn fwy nag unrhyw dderbyniad o'r fath o flaen llaw, neu os nad oes unrhyw dderbyniad o flaen llaw'n bodoli, bydd yr ad-daliad yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul. Bydd ad-daliad grant cyfalaf yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa Gyffredinol (neu'r Cyfrif Cyllid Tai) i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf. Bydd y trosglwyddiad hwn yn cael ei hysbysu yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

8.14 ASEDAU ANGHYFREDOL

8.14.1 CYDNABYDDIAETH

Bydd holl wariant ar gaffael, creu neu wella asedau anghyfredol yn cael ei gyfalafu yn y cyfrifon ond bod yr ased anghyfredol yn dod â buddiannau economaidd i'r Awdurdod yn y dyfodol a'r gwasanaethu sy'n cael eu darparu ganddo'n para am gyfnod o fwy na blwyddyn a bod modd ei fesur yn ddibynadwy. Bydd y costau hyn yn cynnwys gwariant dilynol sy'n gwella, disodli (rhan neu'r cyfan) neu wasanaethau'r ased.

Bydd cost gwaith atgyweirio a chynnal arferol sydd heb fod yn adeileddol cysylltiedig â gweithredu'r asedau sefydlog yn cael ei godi'n uniongyrchol ar gyfrifon cyllid gwasanaethau.

- Rhaid cyfrif am gydrannau tir ac adeiladau asedau anghyfredol ar wahân. Bydd asedau'n cael eu cydnabod ar sail cydrannau pan fo:
- cydran unigol yn berthnasol i gost a/neu weithredu'r ased hwnnw a bod amcangyfrif o fywyd defnyddiol y gydran honno'n sylweddol wahanol i gydrannau eraill yr ased.

Pan gaiff cydrannau eu disodli neu adfer, bydd y symiau cario presennol ar y Fantolen yn cael eu hanghydnabod cyn cydnabod y gydran newydd.

8.14.2 DOSBARTHIAD

Eiddo, Peiriannau ac Offer – yn cwmpasu holl asedau gyda sylwedd diriaethol (asedau diriaethol) sy'n cael eu dal i'w defnyddio wrth gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau a gwasanaethau, ar rent i eraill, neu at ddibenion gweinyddol, a disgwyl eu defnyddio yn ystod mwy nag un cyfnod.

Eiddo Buddsoddi – yn cael ei ddal yn unig i ennill rhenti neu at ddibenion cynnydd cyfalaf neu'r ddau, i gael ei ddosbarthu fel Eiddo Buddsoddi.



Asedau Treftadaeth – yn cael eu dal a'u cynnal yn bennaf am eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant, a'u cadw mewn ymddiried ar ran cenedlaethau a ddaw.

Asedau Rhoddedig – i gael eu cynnwys yn y dosbarth asedau priodol ar sail defnydd.

Mae asedau seilwaith yn asedau anaralladwy, a dim ond trwy ddefnydd parhaus o'r ased a grëwyd y gellir adennill gwariant arnynt, h.y. nid oes unrhyw obaith o werthu na defnydd amgen; mae enghreifftiau yn cynnwys priffyrdd, cynnal a chadw strwythurol ar briffyrdd, llwybrau troed, pontydd, ffyrdd parhaol, amddiffynfeydd arfordirol, cyflenwad dŵr a systemau draenio).

8.14.3 PRISIO DECHREUOL

Gwerthoedd Asedau Anghyfredol – i gael eu cydnabod i ddechrau am y gost gan gydnabod holl wariant ar sail croniadau sydd i'w briodoli'n uniongyrchol i ddod â'r ased i'w ddefnydd arfaethedig (RIBA cyfnod 3 ymlaen fel arfer).

Pan nad oes unrhyw amodau perthnasol i'r ased nad ydynt wedi'u cyflawni ar gyfer Asedau Rhodd neu Asedau a Gyfnewidiwyd am Gydnabyddiaeth Anariannol, caiff gwerth teg yr ased ei gydnabod ar y fantolen ac yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Caiff yr olaf ei drosglwyddo i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf drwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Pan fo amodau ynghlwm wrth ased rhodd caiff yr ased ei gydnabod ar y fantolen ac yn y Cyfrif Asedau Rhodd hyd nes y caiff yr amodau eu bodloni.

Asedau Treftadaeth – i gael eu prisio am y gost neu werth, trwy ddull priodol, os oes un ar gael.

8.14.4 PRISIO DILYNOL

Bydd mesur ar ôl cydnabyddiaeth ar y sail a argymhellwyd gan CIPFA ac yn unol â'r Egwyddorion Datganiadau Prisio Asedau a Nodiadau Esboniadol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS):

- Bydd gwerth presennol Eiddo'n cael ei gynnwys ar y Fantolen, i'w ddiffinio fel yr isaf o werth gwiredadwy net yn ei ddefnydd presennol neu, yn absenoldeb marchnad weithredol oherwydd natur arbenigol yr ased, y gost amnewid ddibrisiedig.
- Bydd cost hanesyddol Peiriannau ac Offer yn cael ei gario am fel dirprwy dros werth presennol.
- Bydd gwerth presennol Tai'r Cyngor yn cael ei gynnwys ar y Fantolen yn eu defnydd presennol fel tai cymdeithasol sydd i'w ddeillio trwy ostwng gwerth y farchnad yn ôl ffactor sy'n adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng rhenti masnachol a chymdeithasol.
- Bydd gwerth teg Eiddo Buddsoddi'n cael ei gynnwys ar y Fantolen, i'w ddiffinio fel faint fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd uchaf a gorau llai cost ei werthu yn unol â gofynion IFRS13. Bydd asedau'n cael eu hailbrisio i werth teg cyn cael eu hailddosbarthu'n Eiddo Buddsoddi neu Asedau Mewn Llaw i'w Gwerthu.
- Bydd gwerth teg asedau dros ben yn cael ei gynnwys ar y fantolen, i'w ddiffinio fel faint fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd uchaf a gorau llai cost ei werthu yn unol â gofynion IFRS13.
- Bydd cost hanesyddol glir o ddibrisiad pan fo hynny'n briodol isadeiledd, asedau cymunedol, ac asedau'n cael eu hadeiladu at ddefnydd gweithredol, yn cael ei chynnwys ar y Fantolen.
- Mae CIPFA wedi darparu diweddariad i'r Cod a manylebau ar gyfer Codau ar gyfer Asedau Seilwaith yn y dyfodol (Diweddariad Tachwedd 2022) yn darparu manylebau diwygiedig ar y datgeliad ar gost gros a dibrisiant cronedig ar gyfer asedau seilwaith. Mae'r Diweddariad yn



caniatáu rhyddhad dros dro i awdurdodau lleol rhag datgelu cost gros a dibrisiant cronedig tan 31 Mawrth 2025.

- Bydd gwerth presennol unrhyw asedau a gafwyd am gydnabyddiaeth heblaw arian yn cael ei gynnwys ar y Fantolen.
- Yn gyffredinol bydd Asedau Treftadaeth yn cael eu prisio am eu cost hanesyddol neu drwy ddefnyddio'u gwerth a yswiriwyd fel dirprwy dros werth presennol.
- Ni fydd ailbrisiu'n digwydd ar adeg gwared.

Bydd prisio'n digwydd o fewn cyfnod o 5 mlynedd dreigl gyda newidiadau mewn gwerthoedd yn cael eu gwneud yn y flwyddyn pan fyddant yn digwydd, a 31^{ain} Mawrth fel y dyddiad gweithredol. Bydd newidiadau sylweddol ym mhatrwm treuliant economaidd sy'n digwydd i unrhyw ased sylweddol neu grŵp o asedau yn unrhyw flwyddyn yn cael eu cydnabod yn y flwyddyn honno.

Bydd yr asedau'n cael eu prisio gan brisiwr penodedig y Cyngor a fydd â chymwysterau priodol.

8.14.5 BYWYD ASED AU

Bydd gweddill bywyd defnyddiol asedau, wedi'i amcangyfrif ar sail cydrannau os yw hynny'n briodol, yn adlewyrchu cyfnod gweddill defnydd disgwylidig yr ased i'r Awdurdod a bydd yn cael ei benderfynu trwy ystyried y defnydd disgwylidig, traul ffisegol, oed, anarferiant, math o adeiledd, cyflwr, atgyweiriad a gwelliant, a chyfyngiadau cyfreithiol neu debyg ar ddefnyddio'r ased (e.e. terfyn prydles).

Bydd amcangyfrifon o weddill bywydau defnyddiol yn cael ei wneud bob blwyddyn, os yw hynny'n briodol, a phob tro y caiff yr ased ei ailbrisiu.

8.14.6 MÂN WARIANT

Bydd gwariant mwy na £10,000 neu wariant ar asedau gyda bywyd defnyddiol uwchlaw 12 mis yn cael ei gyfalafu.

8.15 ASED AU ANNIRIAETHOL

Yn gyffredinol, bydd gwariant ar bethau anniriaethol a brynwyd yn allanol ac asedau anniriaethol a ddatblygwyd yn fewnol yn cael eu codi ym mlwyddyn ei wario dan bennawd y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Fodd bynnag, yn achos asedau a ddatblygwyd yn fewnol, os oes tystiolaeth bod marchnad barod yn bodoli ac, yn y ddwy enghraifft, bod modd sicrhau amcangyfrif o fywyd defnyddiol cyfyngedig, bydd gwerth presennol yr ased yn cael ei hysbysu ac mae modd ei ddileu dros gyfnod sy'n gyson â threuliant buddiannau economaidd; bydd priodoldeb y cyfnod amorteiddio'n cael ei adolygu bob blwyddyn.

8.15.1 YMCHWIL A DATBLYGIAD

Bydd gwariant ar ymchwil a datblygiad yn cael ei ystyried fel rhan o weithrediadau sy'n parhau a'i ddileu fel arfer pan fydd yn digwydd.

8.16 CYFALAFU COSTAU BENTHYCA

Mae modd cyfalafu costau benthyca sydd i'w priodoli'n uniongyrchol i gaffael, adeiladu a chomisiynu ased sy'n cymryd mwy na 12 mis i fod yn barod ar gyfer ei ddefnydd arfaethedig. Heblaw benthyca a glustnodwyd yn benodol ar gyfer prosiect, bydd y costau benthyca perthnasol yn cael eu penderfynu trwy gyfrifo cyfradd gyfalafu, sef cyfartaledd pwysol y costau benthyca cysylltiedig sydd heb eu talu am y cyfnod dan sylw.



Bydd unrhyw gostau benthyca sy'n cael eu cyfalafu yn unrhyw flwyddyn yn cael eu datgelu ar wahân.

8.17 CYLLIDO GWARIANT CYLLIDOL O GYFALAF TRWY STATUD

Bydd taliadau sydd dan ddeddfwriaeth yn cael eu cyllido o adnoddau cyfalaf ond heb greu unrhyw asedau sefydlog yn cael eu codi ar y gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Oherwydd nad yw'n cael ei gyllido o adnoddau cyllid, bydd y swm yn cael ei wyrddroi yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd gyda swm cyfartal yn cael ei godi ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

8.18 ASEDAU MEWN LLAW I'W GWERTHU

Bydd asedau sy'n cyrraedd pob un o'r meini prawf canlynol yn cael eu dangos fel asedau cyfredol ar y Fantolen:

- Mae'r ased (neu grŵp gwared) ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol yn amodol ar delerau sy'n arferol ac arferedig ar gyfer gwerthu asedau (neu grwpiau gwared) o'r fath.
- Mae'r gwerthiant yn debygol dros ben; yr haen reoli briodol yn ymrwymo i gynllun i werthu'r ased (neu grŵp gwared) a rhaglen weithredol i leoli prynwr a chwblhau'r cynllun wedi'i ddechrau.
- Mae'r ased (neu grŵp gwared) cael ei farchnata'n weithredol i'w werthu am bris sy'n rhesymol mewn perthynas â'i werth teg.
- Mae disgwyl i'r gwerthiant gael ei gydnabod fel gwerthiant cyflawn cyn pen blwyddyn o ddyddiad ei ddosbarthu a'r camau gofynnol i gwblhau'r cynllun yn dangos ei bod yn annhebygol y bydd newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r cynllun neu y bydd y cynllun yn cael ei dynnu'n ôl.

Os nad yw'r meini prawf uchod yn cael eu cyrraedd bydd yr ased yn dal i gael ei gyfrif yn y categori asedau anghyfredol priodol.

8.19 GWARED ASEDAU

Bydd enillion gwaredu a'r gwerth cario'n cael eu cofnodi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ond, heb fod yn gost briodol ar Gronfa'r Cyngor, bydd yn cael ei wyrddroi i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf a'r Cyfrif Addasu Cyfalaf yn ôl eu trefn. Bydd unrhyw weddill ar y Gronfa Ailbrisio o ran yr ased a waredwyd yn cael ei ddileu'n uniongyrchol i'r Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Yn achos Asedau Rhoddedig, bydd unrhyw weddill ar y Cyfrif Asedau Rhoddedig yn cael ei gydnabod fel diffyg neu warged yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel Gwariant Gweithredu Arall. Am nad yw'n cael ei ariannu gan adnoddau refeniw nac incwm refeniw, caiff y swm ei wrthdroi yn y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn gan swm cyfwerth a godir ar y Cyfrif Addasu Cyfalaf.

Bydd y derbyniadau o wared asedau Tai'r Cyngor yn cael ei roi o'r neilltu fel darpariaeth ar gyfer ad-dalu dyledion CRT yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. Bydd arian a dderbyniwyd o werthu tai cyngor yn cael ei ddefnyddio ar gyfer swyddogaethau'r Cyfrif Cyllid Tai yn unig.

Bydd llog a enillwyd ar fuddsoddi derbyniadau cyfalaf mewn llaw yn cael ei gredydu i Gronfa'r Cyngor.



Nid oes modd trin derbyniadau dan £10,000 a derbyniadau amrywiol heb fod yn perthyn i werthu asedau fel eitemau cyfalaf a byddant yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'u neilltuo i'r Gronfa Derbyniadau Cyfalaf yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd.

8.20 PRYDLESI A THREFNIADAU PRYDLESOL

8.20.1 CYDNABOD A DOSBARTHU

Bydd prydlesi a threfniadau ariannol tebyg yn cael eu dosbarthu naill ai fel prydlesi cyllidol neu brydlesi gweithredol. Diffiniwyd prydlesi cyllidol fel trefniadau lle bydd holl beryglon a gwobrau sy'n cyd-fynd â pherchenogaeth yn trosglwyddo'n sylweddol i'r prydlesai ond bod teitl yn gallu trosglwyddo maes o law neu beidio. Bydd prydlesi gweithredol yn cael eu diffinio fel holl drefniadau prydlesol eraill. Wrth ystyried prydlesi eiddo, bydd tir ac adeiladau'n cael eu hystyried ar wahân at ddibenion dosbarthu, gyda thir sydd â bywyd bythol yn cael ei gydnabod yn gyffredinol fel prydles weithredol.

8.20.2 CAFFAELIADAU (Y CYNGOR FEL PRYDLESAI)

Prydlesi Cyllidol – fydd yn cael eu cofnodi ar y Fantolen fel asedau a dyledion cyfartal yn y categori priodol yn ôl gwerth teg yr eiddo neu, os yw'n is, gwerth presennol y lleiafswm taliadau prydles – y gyfradd ddisgowntio berthnasol yw'r un ymhlyg yn y brydles. Ar ôl hynny mae asedau'n agored i ailbrisio a dibrisio yn unol â Pholisi Cyfrifyddu 8.14.

Bydd y ddyled gyfalafol sydd heb ei thalu'n cael ei lleihau yn ôl elfen gyfalaf y tâl rhentu. Bydd swm cyfartal â'r ad-daliad cyfalaf blynyddol yn cael ei gynnwys yn yr isafswm darpariaeth referniw sy'n cael ei neilltuo o'r cyfrif cyllid bob blwyddyn.

Bydd y taliad cyllid yn cael ei godi ar gyfrif cyllid y gwasanaeth ar sail gyson dros gyfnod y brydles.

Prydlesi Gweithredol – bydd cyfan y rhent taladwy dan brydlesi gweithredol yn cael ei godi ar gyfrif cyllid y gwasanaeth priodol ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

8.20.3 GWAREDIADAU (Y CYNGOR FEL PRYDLESWR)

Prydlesi Cyllidol – bydd asedau sy'n cael eu gwared dan brydlesi cyllidol yn cael eu dileu o'r Fantolen a chydabod swm ar y Fantolen fel dyled dderbyniadwy sy'n adlewyrchu'r buddsoddiad clir yn y brydles yn ôl diffiniad y safon gyfrifyddu briodol.

Bydd elfen gyfalaf unrhyw rent dyladwy dan brydles gyllidol yn cael ei gyfrif fel derbyniad cyfalaf, y dyledwr a'r ddyled gyfartal yn cael eu lleihau'r un faint. Bydd yr elfen gyllid yn cael ei thrin fel incwm cyllid.

Prydlesi Gweithredol – bydd asedau ar rent dan brydlesi gweithredol yn cael eu dangos yn y categori priodol ar y Fantolen a'u dibrisio yn unol â pholisi cyfrifyddu arferol.

Bydd incwm dyledus dan brydlesi gweithredol yn cael eu trin fel incwm cyllid a'i gydnabod ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles.

8.20.4 TREFNIADAU GWERTHU A PHRYDLESU'N ÔL

Os caiff ased ei werthu a'i brydlesu'n ôl bydd y polisi canlynol yn berthnasol:

- Os dosbarthwyd y trefniant prydlesu'n ôl fel prydles gyllidol, nid oes modd ystyried y trafodiad fel gwarediad gwirioneddol, a bydd unrhyw dderbynion gwerthiant sydd uwchlaw swm cario'r ased yn cael eu hamorteiddio dros gyfnod y brydles ar y sail bod y prydleswr yn darparu cyllid i'r Cyngor.



- Os dosbarthwyd y trefniant prydlesu'n ôl fel prydles weithredol, a'r ddau drafodiad yn ôl gwerth teg, bydd unrhyw dderbynion gwerthiant uwchlaw ased a brisiwyd yn ôl gwerth teg yn cael ei gydnabod fel incwm ym mlwyddyn y gwarediad. Os yw'r pris gwerthu uwchlaw gwerth teg, bydd unrhyw dderbynion gwerthiant uwchlaw swm cario'r ased yn cael eu hamorteiddio dros gyfnod y brydles. Os yw'r pris gwerthu islaw gwerth teg, bydd unrhyw golled yn cael ei chydabod ar unwaith.

8.20.5 TREFNIADAU'N CYNNWYS PRYDLES

Bydd trefniadau, heblaw'r rhai a wnaed yn benodol dan drefniadau Menter Cyllid Preifat neu Bartneriaeth Cyhoeddus Preifat, sy'n trawsgludo hawl i ddefnyddio ased yn cael eu hasesu i weld a ydynt yn cynnwys trefniant prydlesu cynhenid gyferbyn â meini prawf yr ased sydd angen ei ddefnyddio i gyflawni telerau'r trefniant a bod y trefniant yn trawsgludo'r hawl i ddefnyddio'r ased hwnnw. Os bernir bod trefniant yn cynnwys les, yna bydd y polisïau uchod ar gyfer lesioedd yn berthnasol.

8.21 CYFRIFON GRŴP

Bob blwyddyn bydd y Cyngor yn adolygu ei fuddiannau a dylanwad ymhob math o endid gan gynnwys, ond heb fod wedi ei gyfyngu i, awdurdodau lleol eraill a chyrff statudol tebyg, Cronfeydd Ymddiried er lles pawb, cwmnïau, Cydbwyllgorau a threfniadau eraill ar y cyd. Pan fo hynny'n briodol, bydd cyfrifon grŵp yn cael eu paratoi'n unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol.

8.22 GWEITHREDIADAU AR Y CYD

Gweithrediadau ar y cyd yw trefniadau lle mae gan y partïon sy'n rheoli'r trefniant ar y cyd hawl i'r asedau a thros y rhwymedigaethau cysylltiedig â'r trefniant. Mae'r gweithgareddau sy'n cael eu gwneud gan yr Awdurdod ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r gweithredwyr ar y cyd hynny. Mewn cysylltiad â'i fudd mewn gweithrediad ar y cyd, mae'r Awdurdod fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod y canlynol:

- Ei asedau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw asedau sy'n cael eu dal ar y cyd
- Ei rwymedigaethau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw rwymedigaethau ar y cyd
- Ei dderbyniadau o werthu ei gyfran o'r hyn sy'n deillio o'r gweithrediad ar y cyd
- Ei gyfran o'r derbyniadau o werthu'r hyn sy'n deillio trwy'r gweithrediad ar y cyd
- Ei dreuliau, gan gynnwys ei gyfran o unrhyw dreuliau ar y cyd.

8.23 PARTÏON PERTHYNOL

Bydd y datgeliadau canlynol yn cael eu gwneud o ran trafodion busnes perthnasol gyda phartïon perthynol na ddatgelwyd yn unman arall yn y Datganiad Cyfrifon:

- Natur y berthynas a'r dylanwad gan neu ar y Cyngor
- Croniad y trafodion yn ystod y flwyddyn yn dangos symiau taladwy a derbyniadwy ar wahân
- Gweddillion sy'n ddyledus ar 31ain Mawrth.



8.24 PENADUR AC ASIANT

Pan fo'r Cyngor yn gweithredu fel asiant, ni fydd unrhyw drafodion yn ymddangos yn ei Ddatganiadau Ariannol oni bai fod y Cyngor yn casglu a dosbarthu arian parod ar ran y penadur, pan fydd y trafodion ariannol priodol yn cael eu hadlewyrchu ar y Fantolen

8.25 GWEDDILLION A CHRONFEYDD GWEITHREDOL

8.25.1 DOSBARTHAD

Bydd cronfeydd yn cael eu dosbarthu fel defnyddiadwy, trwy fod ar gael i gynnal gwariant yn y dyfodol, neu annefnyddiadwy, sef y rhai sydd eu hangen at ddibenion cyfrifyddu ariannol.

8.25.2 CRONFEYDD DEFNYDDIADWY

Cronfa'r Cyngor fydd gweddill ac adnoddau wrth gefn y Gronfa Gyffredinol, gweddill ac adnoddau wrth gefn y Cyfrif Cyllid Tai, derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, grantiau a chyfraniadau defnyddiadwy a gweddillion RhYLI (Ysgolion).

Bydd gweddillion gweithredol yn cael eu cynnal yn y Gronfa Gyffredinol a'r Cyfrif Cyllid Tai o feintiau sy'n cael eu hystyried yn ddoeth ar gyfer digwyddiadau annisgwyl.

Bydd gweddillion gweithredol yn cael eu cynnal ar gyfer ysgolion yn unol â chynllun a rheoliadau RhYLI cymeradwy'r Cyngor.

Y Strategaeth ar Ddal a Defnyddio Cronfeydd fydd yn llywodraethu creu, rheoli a defnyddio holl gronfeydd.

Bydd y gwariant a gyllidwyd o gronfeydd yn cael ei ddangos, pan fydd yn cael ei wario, yn adran y gwasanaeth priodol Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Bydd yr amgylchiadau canlynol yn caniatáu neilltuo symiau o refeniw:

- Ymrwymadau perthnasol yn bodoli ar gyfer nwyddau a gwasanaethau heb eu derbyn na thalu amdanynt erbyn 31^{ain} Mawrth.
- Hwyluso treiglo cyllid i flynyddoedd a ddaw er mwyn sicrhau defnyddio adnoddau'n gost-effeithiol a chaniatáu ar gyfer amrywiad yn y galw am wasanaeth o flwyddyn i flwyddyn.
- Neilltuo adnoddau ar gyfer datblygiadau i ddod neu bethau annisgwyl.

8.25.3 CRONFEYDD ANNEFNYDDIADWY

Bydd y cronfeydd ariannol canlynol yn cael eu cynnal:

- Cronfa Ailbrisio – i gofnodi unrhyw gynnydd clir wrth ailbrisio asedau sefydlog ar ôl 1af Ebrill 2007.
- Cyfrif Addasu Cyfalaf – i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhwng cost asedau sefydlog a ddefnyddiwyd a'r cyfalaf a neilltuwyd i dalu amdanynt.
- Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol – i adlewyrchu'r disgowntio ac addasiadau eraill a gymhwyswyd i offerynnau ariannol i gyrraedd y gost wedi'i hamorteiddio sydd ar y Fantolen.
- Cronfa Gylchred Bywyd MCP – i adlewyrchu amcangyfrif o'r symiau i'w talu i'r contractwr MCP am gadw'r ased mewn cyflwr "newydd" ac i gael ei gyfateb gyda rhagdaliad ar y Fantolen. Bydd y ddau gyfrif i gael lleihau ar sail gwybodaeth a ddaw oddi wrth y contractwr am y gwariant cylchred bywyd yn y flwyddyn.



- Cronfa Bensiynau – i adlewyrchu sefyllfa Cronfa'r Cynllun.
- Cyfrif Absenoldebau Cronedig – i adlewyrchu cost hawl i absenoldeb taladwy ond na chymrwyd fel y mae pethau ar 31ain Mawrth.
- Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig – i adlewyrchu derbynion gwerthiant o ran asedau a werthwyd ar sail ohiriedig.

8.25.4 HYSBYSU

Bydd balansau wrth gefn y gellir eu defnyddio yn rhan o Gronfa'r gyffredinol y Cyngor.

Bydd arian sy'n cael ei neilltuo i ac o gronfeydd yn cael ei hysbysu yn y Datganiad Symudiad Cronfeydd gan nodi cronfeydd defnyddiadwy a gymeradwywyd gan y Cyngor at ddibenion cyllid a chyfalaf, cronfeydd yn nwylo ysgolion a chronfeydd anefnyddiadwy ar wahân.

8.26 DARPARIAETHAU

Caiff darpariaethau eu gwneud pan fu digwyddiad sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol ar yr Awdurdod sy'n gofyn setliad yn ôl pob tebyg trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu obeithion gwasanaeth, a bod modd gwneud amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth.

Caiff darpariaethau eu codi fel traul ar linell y gwasanaeth priodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r Awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a'u mesur fel yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant gofynnol i setlo'r rhwymedigaeth, gan ystyried peryglon ac ansicrwydd perthnasol.

Pan gaiff taliadau eu gwneud maes o law, cânt eu codi ar y ddarpariaeth sy'n cael ei chario ar y Fantolen. Caiff amcangyfrif o setliadau eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol – pan fydd yn llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd bellach (neu wneud setliad is nag a ragwelwyd), caiff y ddarpariaeth ei gwrth-droi a chredydu'n ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl adennill rhan neu'r cyfan o'r taliad sydd ei angen i setlo darpariaeth oddi ar rywun arall (e.e. trwy hawliad yswiriant), ni chaiff hwn ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol os nad yw fwy neu lai'n sicr y bydd ad-daliad yn dod os bydd yr Awdurdod yn setlo'r rhwymedigaeth.

8.26.1 CYNLLUN LWFANSAU TIRLENWI CYMRU A'R CYNLLUN LLEIHU CARBON

Bydd darpariaeth ar gyfer unrhyw gosbau / rhwymedigaethau sy'n daladwy dan y Cynlluniau neu, pan fo'r Cyngor yn ystyried ei bod yn annhebygol y bydd y gosb yn cael ei gorfodi, bydd yn datgelu dosbarth ar wahân o rwymedigaeth amodol. Bydd unrhyw daliadau a wnaed o flaen llaw yn cael eu dangos fel asedau.

8.27 ASEDAU A RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

8.27.1 RHWYMEDIGAETHAU AMODOL

Mae rhwymedigaeth amodol yn codi pan fu digwyddiad sy'n rhoi posibilrwydd rhwymedigaeth ar yr Awdurdod y bydd ei bodolaeth yn cael ei chadarnhau'n unig os bydd digwyddiadau ansicr y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod yn digwydd neu beidio. Mae rhwymedigaethau amodol yn codi hefyd dan amgylchiadau pan fyddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nad yw'n debygol y bydd angen defnyddio adnoddau neu nad oes modd mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Ni chaiff rhwymedigaethau amodol eu cydnabod ar y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn ar y cyfrifon.



8.27.2 ASEDAU AMODOL

Mae ased amodol yn codi pan fu digwyddiad sy'n rhoi posibilrwydd ased i'r Awdurdod y bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau'n unig os bydd digwyddiadau ansicr y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr awdurdod yn digwydd neu beidio. Ni chaiff asedau amodol eu cydnabod ar y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn ar y cyfrifon pan fo'n debygol y daw buddiannau economaidd neu bosibilrwydd gwasanaeth i'r Awdurdod.

8.28 TAW

Bydd trafodion yn cael eu dangos heb gynnwys TAW i'r graddau y mae'n adenilladwy / daladwy.

8.29 CRONFEYDD YMDDIRIED A CHYFRIFON ERAILL

Bydd cyfrifon ar wahân yn cael eu cadw ar gyfer Ymddiriedau a chyllid arall sy'n cael ei weinyddu gan y Cyngor. Fodd bynnag, pan fo gan yr Awdurdod reolaeth lawn fel yr unig Ymddiriedolwr byddai cyfrifon grŵp yn ofynnol ond, os nad yw'r trafodion / gweddillion yn unigol berthnasol, byddant yn cael eu cyfuno o fewn Datganiadau Ariannol endid unigol y Cyngor (er enghraifft Pwll Dinbych-y-pysgod).

8.30 IFRS 15 REFENIW O GONTRACT

Mae'n berthnasol o 1 Ebrill 2018, gan amnewid IAS 18 ac IAS11 Chontractau Adeiladu Refeniw. Mae IFRS 15 yn sefydlu fframwaith newydd ar gyfer cydnabod refeniw ac yn newid y sail ar gyfer penderfynu a yw refeniw yn cael ei gydnabod ar adeg benodol neu dros gyfnod o amser. Mae IFRS 15 wedi cyflwyno 5 cam ar gyfer cydnabod refeniw, ond gan fod gan y Cyngor ffrydiau incwm cymharol ragweladwy ystyrir yr effaith yn amherthnasol.





9.0 NODIADAU AR Y DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLID

Cygnor Sir Penfro – Datganiad Cyfrifon Blynnyddol 2022-23



9.0

NODIADAU AR Y DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLID

9.1

NODYN AR Y DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLID

Gwir Wariant 2022-23	Addasiadau at Ddibenion Cyfalafol £'000	Newid Clir ar yr Addasiadau Pensiynau £'000	Gwahaniaet hau Statudol Eraill £'000	Cyfanswm Addasiadau Statudol £'000	Gwahaniaet hau Anstatudol Eraill £'000	Cyfanswm yr Addasiadau £'000
Gwasanaethau Addysg	11,760	9,285	(274)	20,771	4,722	25,493
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Plant	(13)	2,646	-	2,633	2,317	4,950
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Oedolion	635	3,663	-	4,298	454	4,752
Gwasanaethau Tai	466	330	-	796	98	894
Tai'r Cyngor	16,424	1,237	(4,439)	13,222	(8,851)	4,371
Gwasanaethau Prifffyrdd a Chludiant	5,942	1,355	-	7,297	(1,083)	6,214
Gwasanaethau Diwylliannol a Chysylltiedig	5,109	1,675	(14)	6,770	71	6,841
Gwasanaethau Cynllunio	6,715	1,053	-	7,768	(634)	7,134
Gwasanaethau Amgylcheddol	2,503	2,676	-	5,179	(1,753)	3,426
Gwasanaethau Canolog, Corfforaethol a Democrataidd Eraill	2,141	(19)	1,548	3,670	(3,116)	554
Gwasanaethau Lllys	-	64	-	64	-	64
Second Home Council Tax (Community)	-	-	-	-	(376)	(376)
Cynllun Tai Fforddiadwy*	-	-	-	-	(3,141)	(3,141)
Cyfraniadau l'r Gymuned*	-	-	-	-	(186)	(186)
Costau Clir Gwasanaethau (gan gynnwys CRT) / Diffyg ar Weithrediadau Parhaol	51,682	23,965	(3,179)	72,468	(11,478)	60,990
Gwariant Gweithredu Arall	(163)	-	-	(163)	19,848	19,685
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi	(323)	6,096	(889)	4,884	(326)	4,558
Trethdalwyr incwm a gwariant grant penodol*	(30,887)	-	-	(30,887)	(19,848)	(50,735)
Gwahaniaeth rhwng gwarged neu ddiffyg y Gronfa Gyffredinol a Gwarged neu Ddiffyg y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth Ddarparu Gwasanaethau	20,309	30,061	(4,068)	46,302	(11,804)	34,498

* Mae Premiwm Treth Gyngor Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor yn cael eu dangos ar wahân yn y Cyfrifon Rheoli ond wedi eu cyfuno yn nhablau'r Datganiad o Gyfrifon.



Gwir Wariant 2021-22	Addasiadau at Ddibenion Cyfalafol £'000	Newid Clir ar yr Addasiadau Pensiynau £'000	Gwahaniaet hau Statudol Eraill £'000	Cyfanswm Addasiadau Statudol £'000	Gwahaniaet hau Anstatudol Eraill £'000	Cyfanswm yr Addasiadau £'000
Gwasanaethau Addysg	2,701	6,617	(1,456)	7,862	(6,633)	1,229
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Plant	146	1,897	(29)	2,014	(61)	1,953
Gofal Cymdeithasol - Gwasanaethau Oedolion	491	2,680	-	3,171	(705)	2,466
Gwasanaethau Tai	103	342	-	445	(531)	(86)
Tai'r Cyngor	(15,130)	1,049	(4,387)	(18,468)	(7,598)	(26,066)
Gwasanaethau Prifffyrdd a Chludiant	5,365	3,023	-	8,388	(1,561)	6,827
Gwasanaethau Diwylliannol a Chysylltiedig	1,828	1,524	(14)	3,338	(902)	2,436
Gwasanaethau Cynllunio	1,220	1,021	-	2,241	(536)	1,705
Gwasanaethau Amgylcheddol	2,818	2,095	-	4,913	(1,968)	2,945
Gwasanaethau Canolog, Corfforaethol a Democraidd Eraill	2,681	1,234	461	4,376	(6,645)	(2,269)
Gwasanaethau Llys	-	16	-	16	-	16
Eiddo Gwag Tymor Hir*	-	-	-	-	-	-
Cynllun Tai Fforddiadwy*	-	-	-	-	(1,253)	(1,253)
Cyfraniadau I'r Gymuned*	-	-	-	-	(423)	(423)
Costau Clir Gwasanaethau (gan gynnwys CRT) / Diffyg ar Weithrediadau Parhaol	2,223	21,498	(5,425)	18,296	(28,816)	(10,520)
Gwariant Gweithredu Arall	(604)	-	-	(604)	17,974	17,370
Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi	(23)	5,404	(720)	4,661	(89)	4,572
Trethdalwyr incwm a gwariant grant penodol*	(57,105)	-	-	(57,105)	(17,975)	(75,080)
Gwahaniaeth rhwng gwared neu ddiffyg y Gronfa Gyffredinol a Gwared neu Ddiffyg y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr wrth Ddarparu Gwasanaethau	(55,509)	26,902	(6,145)	(34,752)	(28,906)	(63,658)

* Mae Premiwm Treth Gyngor Ail Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor yn cael eu dangos ar wahân yn y Cyfrifon Rheoli ond wedi eu cyfuno yn nhablau'r Datganiad o Gyfrifon.

9.1.1 ADDASIADAU AT DDIBENION CYFALAFOL

Addasiadau at ddibenion cyfalafol – mae'r golofn hon yn ychwanegu dibrisiant ac enillion a cholledion amhariad ac adbrisio yn y llinell wasanaethau, ac ar gyfer:

- Gwariant gweithredu arall – sy'n addasu am warediadau cyfalafol gyda throsglwyddiad o incwm wrth gael gwared ar asedau a'r symiau a ddilëwyd ar gyfer yr asedau hynny.
- Incwm a gwariant cyllido a buddsoddi – y taliadau statudol am godi cyfalaf h.y. caiff Isafswm Darpariaeth Refeniw a chyfraniadau cyllidol eraill eu didynnu o incwm a gwariant arall am nad yw'r rhain yn daladwy dan arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol.
- Incwm a gwariant trethiant a grantiau amhenodol – caiff grantiau cyfalaf eu haddasu am incwm nad yw'n daladwy dan arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol. Caiff grantiau cyllid eu haddasu o'r rhai sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn i'r rhai hynny sy'n dderbyniadwy heb amodau neu y bodlonwyd eu hamodau drwy gydol y flwyddyn. Caiff y llinell Incwm a Gwariant Trethiant a Grantiau Amhenodol ei chredydu gyda grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy yn y flwyddyn heb amodau neu y bodlonwyd eu hamodau yn y flwyddyn.

9.1.2 NEWID CLIR AR GYFER YR ADDASIADAU PENSIYNAU

Newid clir ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegu gwariant ac incwm cysylltiedig â phensiynau Buddiannau Cyflogeion IAS 19:

- O ran gwasanaethau mae hyn yn cynrychioli dileu cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a wnaed gan yr awdurdod fel y caniatwyd trwy statud a disodli hynny gan gostau cyfredol gwasanaethau a chostau gwasanaethu'r gorffennol.
- O ran incwm a gwariant cyllido a buddsoddi – caiff y llog clir ar y rhwymedigaeth budd-dal diffiniedig ei godi ar y CIES.

9.1.3 GWAHANIAETHAU STATUDOL ERAILL

Gwahaniaethau statudol eraill rhwng symiau a ddebydwyd / a gredydwyd i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a symiau sy'n daladwy / sy'n dderbyniadwy i'w cydnabod trwy statud:

- O ran incwm a gwariant cyllido a buddsoddi mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol am y gwahaniaethau amseriad rhwng premiymau a gostyngiadau.
- Mae'r taliad dan incwm a gwariant trethiant a grantiau amhenodol yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng yr hyn sy'n daladwy dan reoliadau statudol am dreth y cyngor a NDR a ragamcanwyd a fyddai'n cael ei dderbyn ar ddechrau'r flwyddyn a'r incwm cydnabyddedig dan arferion cyfrifyddu sy'n gyffredinol dderbyniol yn y Cod. Gwahaniaeth amseriad yw hwn oherwydd y bydd unrhyw wahaniaeth yn cael ei ddwyn ymlaen yng Ngwargedion neu Diffygion y dyfodol ar y Gronfa Gasglu.

9.1.4 GWAHANIAETHAU ANSTATUDOL ERAILL

Mae addasiadau anstatudol eraill yn cynrychioli symiau a ddyrannwyd / credydwyd i segmentau gwasanaeth y mae angen eu haddasu yn erbyn y 'Incwm a gwariant arall o'r llinell Gwariant a Dadansoddiad Cyllido' i gydymffurfio â'r gofynion cyflwyno yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ee trafodion wrth gefn:

- Ar gyfer cyllido a buddsoddi incwm a gwariant, mae'r golofn addasiadau anstatudol arall yn cydnabod addasiadau i segmentau gwasanaeth ee ar gyfer incwm a gwariant llog.
- Ar gyfer incwm a gwariant trethiant ac an-benodol, mae'r golofn addasiadau anstatudol arall yn cydnabod addasiadau i segmentau gwasanaeth ee ar gyfer grantiau llywodraeth heb eu ffonio.

9.2 SYMIAU A HYSBYSWYD AR GYFER PENDERFYNIADAU DYRANNU ADNODDAU

Caiff y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ei baratoi trwy ddefnyddio'r polisïau cyfrifyddu sy'n cael eu hamlinellu yn nodyn 8.0 i ateb gofynion y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol.

Caiff penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau eu gwneud gan y Cyngor ar sail adroddiadau ar y gyllideb a baratowyd ar wahanol sail trwy ddefnyddio'r grwpiau gwasanaethau sy'n cael eu manylu yn y Cod Ymarfer ar Adroddiadau Gwasanaethau.

Yn arbennig:

Ni chaiff dim ei godi mewn cysylltiad â gwariant cyfalaf (tra caiff colledion dibrisio, ailbrisio ac amhariad uwchlaw'r gweddill ar y Gronfa Ailbrisio ac amorteiddiadau eu codi ar wasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).



Seiliwyd cost budd-daliadau ymddeol ar lifau arian (talw cyfraniadau pensiynau'r cyflogwr) yn hytrach na chost gyfredol budd-daliadau a gronwyd yn y flwyddyn i wasanaethau.

Caiff neilltuadau arian i gronfeydd a glustnodwyd y mae modd eu priodoli i wasanaeth arbennig eu hysbysu ar lefel gwasanaeth.

9.3 DADANSODDIAD O WARIANT AC INCWM YN ÔL EI NATUR

Gwariant / Incwm	2021-22 £'000	2022-23 £'000
Gwariant		
Costau Cyflogeion	196,820	217,987
Costau Gweithredu Eraill	208,550	228,520
Gwasanaethau Cefnogi	-	-
Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad	2,153	45,559
Llog a Dalwyd	15,004	15,449
Archebiannau ac Ardollau	26,214	28,375
Ennill neu golled wrth gael gwared ar asedau	(604)	(163)
Gwariant Llawn	448,137	535,718
Incwm		
Rhenti, ffioedd a thaliadau ac ati	(65,270)	(77,466)
Llog ac incwm o fuddsoddiad	(219)	(1,906)
Incwm o dreth y cyngor	(87,900)	(94,323)
Grantiau a chyfraniadau'r llywodraeth	(359,406)	(327,525)
Cyfanswm Incwm	(512,795)	(501,220)
Gwarged neu Ddiffyg wrth Ddarparu Gwasanaethau	(64,658)	34,498



10.0 NODIADAU AR Y DATAGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Cygnor Sir Penfro – Datganiad Cyfrifon Blynnyddol 2022-23



10.0 NODIADAU AR Y DATAGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

10.1 INCWM O DRETHIANT A GRANTIAU AMHENODOL

10.1.1 GRANT CYNNAL CYLLID A GRANT ARBENNIG

Y swm yn yr adroddiad yw'r hyn a hysbysir gan Lywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol dan sylw.

10.1.2 TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL (NNDR)

Cafodd y dreth fusnes unedig ar gyfer 2022-23 ei rhewi gan Lywodraeth Cymru ar 53.5c yn y £1 gyda gwerth ardrethol cyfartalog o £131,035,763 o'i gymharu â gwerth ardrethol cyfartalog o £132,831,671 yn 2021-22. Gwnaeth y Cyngor gyfraniad net i'r gronfa NNDR o £4.410m yn 2022-23 a £11.725m yn 2021-22.

10.1.3 TRETH Y CYNGOR

Pennodd y Cyngor Sir y Dreth Gyngor ganlynol ar gyfer y Cyngor Sir a hefyd ar ran Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys a Chynghorau Tref a Chymuned.

Band D Treth y Cyngor	2021-22	2022-23
Cyngor Sir Penfro	£1,189.69	£1,249.17
Awdurdod Heddlu Dyfed Powys	£275.56	£290.16
Cyngor Tref a Chymuned ar Gyfartaledd	£38.75	£39.28
Sylfaen Drethu Niferoedd Cywerth Band D		
Taladwy	58,794.44	61,307.32
Casgladwy*	57,188.46	60,247.38

